

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Polisi: Llinos Dafydd
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8403
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2. Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 22)

HSC(4)-33-12 papur 1

Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a
Phlant
Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

3. Papurau i'w nodi (10.30)

3a. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion Ewropeaidd (Tudalennau 23 – 29)

HSC(4)-33-12 papur 2

3b. Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod ar 17 Hydref yn Craffu ar y Gyllideb (Tudalennau 30 – 35)

HSC(4)-33-12 papur 3

Egwyl 10.30 – 10.40

4. Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Ystyried penodi Cynghorydd Arbenigol i gynorthwyo'r gwaith o graffu ar y Bil (10:40 – 10:50) (Tudalennau 36 – 37)

HSC(4)-33-12 papur 4

5. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) – Cyfnod 1: y dull o graffu (10:50 – 11:05) (Tudalennau 38 – 48)

HSC(4)-33-12 papur 5

6. Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Cyfnod 1 – y dull o graffu (11:05 – 11.20) (Tudalennau 49 – 63)

HSC(4)-33-12 papur 6

7. Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Cyfnod 1 – sesiwn dystiolaeth 1 – WEDI'I GOHIRIO

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-33-12 papur 1

Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Pwrpas

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion a blaenoriaethau allweddol ar draws fy mhortffolio, ynghyd â gwybodaeth am destunau ychwanegol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn amdanynt yn benodol.

2. Trosolwg o gyflawniadau a chynnydd diweddar, a blaenoriaethau'r portffolio

2.1 Ers imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor y tro diwethaf ym mis Gorffennaf 2012, credaf ein bod wedi parhau i wneud cynnydd da gyda'r blaenoriaethau allweddol yn fy mhortffolio. Yn unol â'r ymrwymïadau yn "Law yn Llaw at Iechyd", rwyf yn ddiweddar wedi cyhoeddi dwy strategaeth bwysig a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig - Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a 'Mwy na Geiriau...' ein fframwaith strategol yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg.

2.2 Mae perfformïadau'r BILlau yn dal i wella, gyda chynnydd da mewn meysydd megis trin strôc, derbyniadau brys i ysbyty ar gyfer cyflyrau cronig, a chyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Yn gyffredinol, mae boddhad y cyhoedd â gwasanaethau'r GIG yn dda. Mae gwaith i atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn mynd rhagddo, ac yn cael sylw mwy manwl mewn adran ddiweddarach.

2.3 Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal ar y trywydd iawn, gyda'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn awr ar Gam 2 a'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) wedi'i gyflwyno. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael ei gyflwyno dros y misoedd nesaf. Mae'r gwaith i gyflawni ein

hymrwymiadau pwysig eraill yn y Rhaglen Lywodraethu yn mynd rhagddo'n dda hefyd.

3. Datblygiadau strategol sy'n gysylltiedig â "Law yn llaw at lechyd"

3.1 Fis diwethaf rhoddais yr wybodaeth fanwl ddiweddaraf ichi am y gwaith i gyflawni ymrwymadau Law yn Llaw at lechyd. Roedd hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau cyflawni sy'n benodol i wasanaethau, sy'n gosod allan y canlyniadau rydym yn disgwyl eu gweld erbyn 2016. Yn ogystal â'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a gafodd ei lansio yn gynharach eleni, fis diwethaf cyhoeddais y Strategaeth lechyd Meddwl a Lles newydd. Mae proses ymgynghori wedi cael ei lansio hefyd ar y Cynlluniau ar gyfer Clefyd y Galon, Darparu Gofal ar gyfer Diwedd Oes, Gofal Strôc ac lechyd y Geg. Bydd cynllun diabetes hefyd yn cael ei gyhoeddi maes o law ar gyfer ymgynghori arno.

3.2 Ers i mi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf y tro diwethaf, rwyf wedi lansio'r Cynllun Cyflawni ar gyfer rhoi Gwybodaeth i'r Cyhoedd. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y gellir gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, a'i nod yw helpu'r cyhoedd:

- i ddod o hyd i wybodaeth ddiweddar, fwy dibynadwy;
- ei deall yn gyflym drwy ei gweld wedi'i chyflwyno mewn modd haws ei defnyddio

3.3 Ym mis Mai 2012, cafodd "Gweithio'n Wahanol – Gweithio Law yn Llaw", ei lansio gennyf, sef Fframwaith i Ddatblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad i gefnogi Law yn Llaw at lechyd. Mae Bwrdd Rhaglen wedi cael ei ffurfio dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr i oruchwylio'r gwaith o'i roi ar waith a fydd yn cael ei fonitro gan Fforwm Partneriaeth Cymru.

3.4 Mae undebau llafur a Chyflogwyr y GIG wedi ffurfio gweithgor i ddatblygu trefniadau newydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar gyfer GIG Cymru. Mae set o gynigion wedi cael eu datblygu sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan yr holl randdeiliaid.

3.5 Yn Law yn Llaw at Iechyd, ymrwymais i wahodd pobl Cymru i ymuno â ni i greu Cymru lle mae iechyd gyda'r gorau yn y byd, a lle bydd newid sylweddol yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a phobl Cymru. Bu'r ymgynghoriad cysylltiedig, "Gwasanaeth Iechyd y Bobl" yn rhedeg am 12 wythnos a daeth i ben ar 24 Hydref 2012. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a byddant yn llywio'r ffordd y bydd y broses yn mynd rhagddi.

4. Gofal Integredig Lleol

4.1 Yn fy mhapur gwybodaeth blaenorol, cyfeiriais at yr angen i ddatblygu modelau gofal newydd er mwyn galluogi gwasanaethau i gael eu darparu yn y gymuned, yn nes at gartrefi pobl. Mae tystiolaeth yn dangos bod GIG gofal sylfaenol cryf dan arweiniad y gymuned yn gallu darparu canlyniadau iechyd gwell a rhagor o gydraddoldeb ym maes iechyd. Mae'r cyfeiriad polisi ar gyfer GIG Cymru, gan gynnwys *Gosod y Cyfeiriad a Rheoli Cyflyrau Cronig* yn cadarnhau hyn.

4.2 Felly, rwy'n gobeithio ehangu a chyflymu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a chanolbwyntio ar integreiddio â gofal eilaidd, a hefyd â gofal cymdeithasol. Mae angen inni symud oddi wrth wasanaethau ysbyty sy'n seiliedig yn bennaf ar salwch adweithiol, i wasanaeth sy'n seiliedig ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda gofal rhagweithiol, integredig yn y cymunedau lleol. Mae ailgydbwyso gofal fel hyn yn rhan o fodel system gyfan i gynnal iechyd a lles yng Nghymru.

4.3 Bydd ein 'Cynllun ar gyfer Cyflawni Gofal Integredig Lleol' yn helpu Byrddau Iechyd i ganolbwyntio ar weithio mewn ffordd integredig ac ar fodolau gofal newydd ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector, er mwyn bodloni anghenion pobl yn y ffordd orau yn eu hardal lleol. Bydd hyn yn cynnwys dull gweithredu rhagweithiol ar gyfer atal a hybu iechyd, canfod pryderon yn gynnar a chynnwys cleifion yn rhagweithiol yn eu gofal.

4.4 Dylai cleifion a'r cyhoedd allu gweld newid mesuradwy yn y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, gyda'r gwasanaethau yn ymateb i'w hanghenion hwy. Bydd cleifion yn gweld eu problemau iechyd yn cael sylw'n gyflym, yn effeithiol ac yn systematig drwy brotocolau a llwybrau gofal y cytunir arnynt. Bydd cleifion yn cael cyfleoedd i ddarparu adborth i ddylanwadu ar y broses o wella'r gwasanaeth yn barhaus. Bydd cynlluniau gofal unigol yn sail i natur newidiol cysylltiadau iechyd, gan alluogi unigolion i wneud dewisiadau go iawn am eu gofal. Bydd defnyddio technoleg yn ddychmygus yn cysylltu unigolion â ffynonellau cymorth a gwasanaethau o safon uchel.

4.5 Bydd creu digon o gapasiti a defnyddio'r adnoddau presennol yn effeithiol yn amcanion allweddol ar gyfer y newid hwn. Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu timau amlbroffesiynol cryfach, gweithio ar draws y lleoliadau gofal gwahanol i sicrhau gofal o safon uchel i gleifion.

4.6 Cyhoeddir y Cynllun ar gyfer ymgynghori arno yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

5. Ailffurfwedd Gwasanaethau'r Byrddau Iechyd

5.1 Mae Law yn Llaw at Iechyd yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio ac sydd ag anghenion iechyd cymhleth, mwy o gyflyrau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw fel diabetes a mwy o ddisgwyliadau yn sgil datblygiadau mewn gwyddor feddygol a thriniaethau, pwysau o ran recriwtio staff meddygol a phwysau gormodol ar rai gwasanaethau arbenigol. Er bod gwasanaethau wedi gwella - yn ddramatig mewn rhai meysydd - roedd yn cydnabod bod angen newid radical i sicrhau bod gwasanaethau yn dal yn ddiogel, o safon uchel ac yn gynaliadwy.

5.2 Mae Byrddau Iechyd wedi bod yn ymateb i'r heriau y maent yn eu hwynebu drwy adolygu patrwm a lleoliad eu gwasanaethau yn feirniadol. Drwy wneud hyn, maent wedi cydnabod y gellir rhoi gofal yn y gymuned mewn llawer mwy o achosion, yng nghartrefi pobl hyd

yn oed, yn hytrach nag mewn ysbyty. Mae angen ysbytai ar y bobl y mae eu hangen arnynt.

5.3 Mae'r cysylltiad rhwng yr ysbyty a'r gymuned yn cael ei weddnewid ymhob Bwrdd Iechyd. Mae gan bob un enghreifftiau o weithgarwch a arferai fod mewn lleoliad aciwt yn cael ei drosglwyddo i leoliad sylfaenol a chymunedol, llwybrau cyfeirio newydd neu fodolau gwasanaeth newydd sy'n atal neu'n lleihau'r gofyniad am gapasiti cleifion allanol neu wasanaethau brys. Mae dros 20 o wasanaethau wedi cael eu trosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned e.e. clinigau yn y gymuned ar gyfer problemau anadlol, diabetes, poen, methiant y galon ac osteoporosis.

5.4 Mae BILlau Betsi Cadwaladr a Hywel Dda wedi ymgynghori'n ddiweddar ar eu cynigion ar ffurf y gwasanaethau i'r dyfodol yn eu hardaloedd. Maent yn awr yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a byddant yn cyflwyno'u cynigion terfynol yn gynnar flwyddyn nesaf. Dechreuodd y BILlau yn Ne Cymru ar raglen ymgysylltu ar 26 Medi a bydd proses ymgynghori ffurfiol yn dilyn flwyddyn nesaf.

5.5 Mae'r ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd. Os na fydd Cyngor Iechyd Cymuned yn fodlon y byddai cynigion i wneud newidiadau sylweddol i wasanaethau er budd gwasanaethau iechyd yn ei ardal, neu'n credu na fu'r ymgynghori ar unrhyw gynnig o'r fath yn ddigonol, mae ganddo'r pŵer i gyfeirio ataf fi dan Reoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Felly, ni fyddai'n briodol i unrhyw Weinidog yn Llywodraeth Cymru roi sylwadau ar unrhyw opsiynau penodol a gyflwynir gan fyrddau iechyd, gan y gallai hynny beryglu unrhyw swyddogaeth led-farnwrol y bydd yn rhaid imi ei harfer o bosibl dan y rheoliadau.

6. Sefyllfa Ariannol y Byrddau Iechyd

6.1 Mae'r GIG bob blwyddyn yn wynebu pwysau cost sylweddol oherwydd cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd yn y galw am eu

gwasanaethau, y mae newidiadau demograffig yn dylanwadu'n sylweddol arnynt. Derbynnir yn gyffredinol bod y pwysau hyn rhwng 4% a 5%.

6.2 Blwyddyn ariannol 2012–13 yw ail flwyddyn setliad arian gwastad ar gyfer y GIG ac, oherwydd y pwysau cost, ddechrau blwyddyn ariannol 2012–13 dywedodd y Byrddau Iechyd y byddai angen gwneud oddeutu £315m o arbedion i gael cydbwysedd ariannol. Er y rheidwydd i ddarparu'r lefel sylweddol hon o arbedion, paratôdd holl gyrff y GIG gynlluniau ariannol cytbwys ar ddechrau'r flwyddyn. Ond roedd yn amlwg bod risg ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r cynlluniau hyn.

6.3 Mae perfformiad ariannol y GIG yn cael ei fonitro'n ofalus yn rheolaidd, gyda gwybodaeth ariannol fanwl yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru bob mis. Mae hyn yn cynnwys perfformiad cyffredinol ar gyfer y cyfnodau dan sylw a rhagolygon o'r alldro diwedd blwyddyn. Ategir y dadansoddiad a'r asesiad o'r wybodaeth hon gan ddeialog a thrafodaethau cyson rhwng fy swyddogion i a Chyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr y GIG. Roedd yn amlwg y byddai sicrhau cydbwysedd ariannol yn gryn her eleni ac mae'r anawsterau wedi bod yn amlwg ymhob un o'r adroddiadau misol sydd wedi cael eu cyflwyno er Mai 2012.

6.4 Mae'r sefyllfa, ar ddiwedd Medi, yn dangos diffyg cronus o £69.1m a diffyg diwedd blwyddyn tybiedig o £69.6m. Er bod y diffyg misol wedi bod oddeutu £11m y mis ar gyfartaledd hyd at fis Medi 2012, disgwylir i hyn wella yn ystod ail hanner y flwyddyn wrth i gynlluniau arbed arian ddechrau gael mwy o effaith yng ngoleuni'r sefyllfa sy'n datblygu. Felly, ar 28 Medi, cyhoeddais y byddai'n rhaid cynnal adolygiad ac archwiliad canol blwyddyn o berfformiad ariannol ac anariannol y GIG i gydnabod y pwysau digyffelyb sydd wedi bod yn wynebu'r GIG. Mae'r gwaith hwn ar fin cael ei gwblhau a byddaf yn cyhoeddi casgliadau'r adolygiad maes o law.

7. Perfformiad y GIG

7.1 Mae perfformiad yn erbyn 3 o'r 4 bwndel strôc yn dal yn uwch na'r targed o 95%. Y perfformiad ym mwndel 2, y 24 awr cyntaf, yw'r her fwyaf o hyd, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r GIG i wella yn y maes hwn.

7.2 Mae sgoriau Archwiliad Strôc Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ar gyfer 2012 yn dangos gwelliant 25% ar gyfer GIG Cymru, a dywed y Coleg mai GIG Cymru yw'r system sy'n gwella gyflymaf yn hanes yr archwiliad.

7.3 Roedd y perfformiad diweddaraf a ddilyswyd yng nghyswllt amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer Medi 2012 yn 91.1% yn erbyn y targed o 95%, gyda 3,201 o gleifion yn aros dros 36 wythnos. Ym mis Medi 2011, mewn cyferbyniad, roedd 7,434 o gleifion yn disgwyl dros 36 wythnos, gyda chanran mawr o'r rheini ym maes Orthopedeg. Mae'r buddsoddi gan Lywodraeth Cymru ym maes Orthopedeg wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y rheini sy'n gorfod aros yn hir yn y maes hwn er bod y gwaith yn parhau i gefnogi gwasanaethau mwy cynaliadwy.

7.4 O ran perfformiad diweddaraf adrannau brys, ym mis Hydref bu 88.7% o gleifion yn aros llai na phedair awr rhwng cael eu hatgyfeirio a'u derbyn, eu rhyddhau neu eu trosglwyddo ar gyfer yr holl unedau brys yn erbyn y targed o 95%. Roedd y ffigur ym mis Hydref 2012 ar gyfer y flwyddyn hyd at hynny yn 88.9% o'i gymharu â'r flwyddyn hyd at Hydref 2011 a oedd yn 88.2%, 0.7% o welliant.

7.5 Mae'r perfformiad yn erbyn y targed canser o 31 diwrnod wedi aros o gwmpas y targed o 98%, gyda'r perfformiad ym mis Medi yn 98.2%.

7.6 Roedd y perfformiad yn erbyn y targed canser o 62 diwrnod yn 85.8% ym mis Medi o'i gymharu â'r targed o 95%. Mae sefydliadau'n gweithio'n galed i drin y cleifion sy'n aros yn hir a chyflwyno atebion cynaliadwy, a dylid gweld gwelliannau yn chwarter 3, gyda gwasanaeth cynaliadwy yn ei le erbyn diwedd chwarter 4.

7.7 Er bod mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn derbyn yr ymateb 8 munud, mae perfformiad diweddaraf y gwasanaeth ambiwlans ar gyfer Hydref 2012 yn dangos bod perfformiad wedi gostwng o dan 60% am y tro cyntaf er Ionawr 2011 gyda 59.9% o alwadau categori A yn cyrraedd o fewn 8 munud o'i gymharu â'r targed 65%. Mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn ymrwymedig i wella perfformiad dros weddill eleni.

7.8 Cafodd yr ymrwymiad i weithio tuag at beidio â chael dim heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal ei atgyfnerthu yn Fframwaith Gweithrediadau Rhagfyr 2011 ac mae'r cyflawniadau sydd wedi'u gweld yn cynnwys:

- C.difficile – Yn 2011–12, cafwyd gostyngiad cenedlaethol o 33% yn nifer yr achosion mewn cleifion dros 65 oed o'i gymharu â 2010–11. Ar gyfer 6 mis cyntaf 2012–13 gwelwyd 20% arall o ostyngiad.
- bacteremia MRSA – Ar gyfer 6 mis cyntaf 2012–13, mae lefelau bacteremia MRSA wedi gweld 10% arall o ostyngiad.
- Arolwg Ewropeaidd 2011 (PPS) o Nifer yr Achosion o Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) – roedd ein cyfradd HCAI o 4.7% yn cymharu'n ffaithiol â gwledydd eraill y DU (yr Alban 4.9%, Lloegr 6.5%).

8. Urddas mewn Gofal

8.1 Mae urddas a pharch bellach yn flaenoriaeth Haen 1 ar gyfer y GIG ac rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad yn gyson ar ein cynnydd gyda'r agenda hwn. Mae Prif Swyddog Nyrsio Cymru yn monitro cynlluniau gweithredu Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'r Byrddau Iechyd bob chwe mis. Dangosai'r diweddariad diwethaf ym mis Medi 2012 fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud gyda'r argymhellion yng nghynlluniau gweithredu unigol sefydliadau'r GIG.

8.2 Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ei hadroddiad 'Gofal gydag Urddas – Flwyddyn yn Ddiweddarach'. Mae'n nodi asesiad y Comisiynydd o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y

deuddeg mis diwethaf ac yn nodi sut y bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal. Mae'r adroddiad yn datgan bod y Comisiynydd yn fodlon bod urddas a pharch bellach yn cael y flaenoriaeth ddyledus.

8.3 Mae canllawiau arfer da wedi cael eu postio ar wefan e-lawlyfr llywodraethu GIG Cymru sy'n gysylltiedig â phob un o'r safonau yn Safonau Gwasanaethau Iechyd Cymru, 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well'. Mae'r safonau a'r canllawiau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

9. Profiad Cleifion

9.1 Dan law'r Bwrdd Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu, mae chwe gweithgor wedi cael eu sefydlu i fwrw ymlaen â'r materion a gafodd eu hamlygu yn Adroddiad Archwilio Blynyddol Hanfodion Gofal (2010) ac adroddiad Gofal gydag Urddas? y cyfeiriwyd ato uchod. Mae'r cynnydd hyd yma'n cynnwys:

- Cyflwyno Pecyn Gofal y Geg Cymru i holl sefydliadau'r GIG dan y rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy. Mae modiwl e-ddysgu i gefnogi'r pecyn yn cael ei ddatblygu.
- Mae'r Pecyn Anymataliaeth ar gyfer Cymru gyfan wedi cael ei gwblhau ac yn destun ymgynghori ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y Pecyn Anymataliaeth yn barod i'w lansio ddechrau 2013.
- Cychwynnodd Archwiliad Hanfodion Gofal Cymru Gyfan 2012 ym mis Gorffennaf 2012 a bydd Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd yn cyflwyno'u hadroddiadau archwilio i Brif Swyddog Nyrsio Cymru erbyn 4 Chwefror 2013. Disgwylir y bydd Adroddiad Archwiliad Hanfodion Gofal Cenedlaethol 2012 yn cael ei gyhoeddi ddiwedd Ebrill 2013.
- Mae set ddata gyffredin ar gyfer dogfennaeth nyrsio wedi cael ei gytuno arno.
- Cafodd yr adroddiad ar broffesiynoldeb ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, sy'n cynnwys adolygiad o sut mae prif nyrsys ward yn cael eu paratoi ar gyfer eu rôl, ei gyflwyno ar 12 Tachwedd ac mae'r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- Mae arweiniad ar gydymffurfio â safonau Hyfedredd Glanhawyr wedi cael ei anfon at sefydliadau'r GIG.

9.2 Mae canlyniadau iechyd yr Arolwg Cartrefi newydd wedi dangos, yng nghyswllt gofal sylfaenol, canlyniadau cadarnhaol gyda:

- 92% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn gan eu meddyg teulu yn ystod eu hymweliad diwethaf. Dengys dadansoddiad pellach fod lefel y boddhad yn amrywio yn ôl oedran, er bod yr amrywiad yn gymharol fach
- Roedd 87% o oedolion iau 16– 24 oed yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i gael gan eu meddyg teulu yn ystod eu hymweliad diwethaf

9.3 O ran gofal eilaidd, cafwyd canlyniadau cadarnhaol yma hefyd:

- Roedd 92% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i gael yn ystod eu hapwyntiad diwethaf mewn ysbyty'r GIG. Dengys dadansoddiad pellach fod lefel y boddhad yn amrywio yn ôl oedran
- Roedd 84% o bobl yn fodlon â'r gofal yr oeddynt wedi'i dderbyn y tro olaf iddynt fynychu'r adran Damweiniau ac Achosion Brys fel claf.

9.4 Cynhaliodd Grŵp Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth Cymru gyfan ei gyfarfod cyntaf ar 16 Hydref 2012. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys datblygu egwyddorion cenedlaethol i'w defnyddio gan sefydliadau'r GIG i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau am eu profiadau, a datblygu offer/gweithgareddau monitro profiad cleifion ac i rannu arferion gorau. Cytunwyd ar yr egwyddorion a chawsant eu darparu i sefydliadau'r GIG ddiwedd Hydref ynghyd â disgwyliadau'r Llywodraeth y bydd Byrddau yn derbyn adroddiadau rheolaidd, yn fisol yn ddelfrydol, yn nodi sut mae'r sefydliadau'n bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac yn defnyddio profiad y defnyddwyr i wella gwasanaethau. Yn y dyfodol bydd crynodeb o adroddiad pob Bwrdd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfodydd chwe misol y Tîm Gweithredol ar y Cyd, ac yn cyfrannu at ddatganiad ansawdd blynyddol y sefydliad.

10. Cefnogi Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10.1 Mae'r Papur Gwyn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru' (2011) yn nodi'r angen am ragor o gydweithredu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys disgwyliad y bydd cyllidebau cyfun a pheirianweithiau hyblygrwydd eraill yn cael eu defnyddio. Hefyd, mae'n gosod rhagor o bwyslais ar ofal ataliol ac ailalluogi, a'r cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Gwnaeth Law yn Llaw at lechyd hefyd bwysleisio pwysigrwydd cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio fel rhan o un system integredig.

10.2 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn atgyfnerthu'r gofynion yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* i greu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael â disgwyliadau sy'n newid, rhagamcanion demograffig a'r pwysau cynyddol ar adnoddau cyfyngedig y sector cyhoeddus. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn mynnu ffyrdd newydd o weithio sy'n creu ymatebion gwasanaeth di-fwlch, a'u rhoi ar waith, ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o golli'r hyn sy'n gallu bod yn fywyd annibynnol bregus yn aml.

10.3 Er bod rhai enghreifftiau rhagorol ar draws Cymru o wasanaethau wedi cael eu cyfuno mewn gwahanol ffyrdd, gwyddom fod mwy y gellir ei wneud.

10.4 Mae'r angen am newid yn ddybryd. Mae rhagolygon demograffig yn glir – yng Nghymru y mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn yn y DU a bydd hyn yn parhau am yr 20 mlynedd nesaf. Er bod datblygiadau clinigol, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y degawd diwethaf yn golygu bod mwy o bobl hŷn yn byw'n annibynnol, does dim dwywaith y bydd y newidiadau demograffig uchod yn golygu y bydd angen mwy o ofal a chefnogaeth, yn enwedig wrth i bobl fyw yn hen iawn.

10.5 Y model arfaethedig i Gymru

Gan gydnabod y cyfleoedd y mae integreiddio yn eu cynnig, ac i ategu'r 'Cynllun ar gyfer Darparu Gofal Integredig Lleol', mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynnig i ddatblygu gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Y prif nodweddion yw:

- Datblygu Fframwaith Gwasanaethau Integredig ar gyfer Pobl Hŷn, a fydd yn disgrifio disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac yn esbonio maint, cwmpas a chyflymder y cynnydd, gan geisio annog a hyrwyddo gwaith ar draws partneriaethau er mwyn datblygu cyfleoedd i integreiddio.
- Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Integredig Cenedlaethol i oruchwylio rhoi hyn ar waith
- Datblygu rhaglen “Dosbarth Meistr” benodol ar gyfer swyddogion gweithredol allweddol Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, gan weithio mewn partneriaeth â'r rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed.
- Cefnogaeth i arweinwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr drwy raglen Cymuned Ymarfer bwrpasol.

10.6 Bydd y rhaglen waith hefyd yn cysylltu â'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yr ydym yn rhoi £140,000 iddi dros ddwy flynedd ac a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag academyddion blaenllaw ym Mhrifysgol Abertawe.

10.7 Mae'n ddyddiau cynnar ar yr holl waith hwn, ac mae'r gwaith ymgysylltu'n dechrau nawr. Mae ei fwriad yn uchelgeisiol, sef sicrhau bod y newid yn y ffordd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn digwydd yn gynt.

11. TGCh yn y GIG

11.1 Pwysigrwydd TGCh ar gyfer cyflawni Law yn Llaw at Iechyd

Mae Law yn Llaw at Iechyd yn symud i gam newydd gyda'r cynlluniau gwasanaethau lleol ar gyfer ail-ddylunio gwasanaethau yn destun ymgynghori. Nid yw llifoedd cleifion yn ystyried ffiniau sefydliadol rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol a bydd cyflawni'r holl gynlluniau'n llwyddiannus yn dibynnu ar gael llwyfan cenedlaethol cyffredin i Gymru gyfan ar gyfer gallu rhannu gwybodaeth yn ddiogel

ac yn gyfrinachol, fel y bydd ar gael i ddarparwyr gofal ymhob maes a lleoliad gofal, gan gynnwys drwy ddyfeisiau symudol. Prif elfennau'r llwyfan rhannu gwybodaeth cenedlaethol y bydd yn rhaid ei gael i gefnogi Law yn Llaw at lechyd yw:

11.2 Rhwydwaith Band Eang y Sector Cyhoeddus

Mae'r rhwydwaith yn darparu cysylltiad diogel rhwng sefydliadau lechyd a Llywodraeth Leol. Mae'r sefyllfa fel y mae yn sicrhau bod y GIG i gyd a'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol wedi cael eu cysylltu fel hyn, sy'n gosod Cymru mewn sefyllfa strategol bwerus iawn i elwa ar fanteision cysylltiad band eang i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig i ddinasyddion.

11.3 Storio Data Cyffredin

Mae prosiect cenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus wedi dechrau rhesymoli'r ffordd yr ydym yn storio data er mwyn ei gwneud yn haws darparu mynediad diogel ac awdurdodedig. Bydd y prosiect yn lleihau nifer y gweinyddion a ddefnyddir ac yn lleihau nifer y CANOLFANNAU DATA gweithredol o 80 i 2. Bydd hyn yn arwain at arbedion ariannol sylweddol a lleihad yn y defnydd o ynni a fydd yn cyfrannu at bolisiau Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. Byddaf yn mynnu bod Byrddau lechyd yn cymryd rôl arweiniol i symud eu trefniadau storio cyfredol i'r seilwaith rhannu data modern y mae ei angen arnom i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel.

11.4 Mynediad Staff Awdurdodedig at Wybodaeth

Ar hyn o bryd mae'r wybodaeth sydd mewn dros 2 filiwn o gofnodion meddygon teulu wedi cael ei darparu i wasanaethau y Tu Allan i Oriau. Ar hyn o bryd mae gennym gytundeb ymysg y cyrff cleifion, clinigol a phroffesiynol (e.e. BMA, RCN, CHC) i ddarparu mynediad at Gofnodion Meddygon Teulu i Staff Clinigol y gwasanaeth Tu Allan i Oriau yn unig. O safbwynt technolegol, mae'n hawdd ymestyn mynediad cyfrifiadurol at yr wybodaeth hon i leoliadau gofal eraill ond bydd angen i weithwyr proffesiynol clinigol ddarparu arweiniad ar gyfer cytuno ar y gweithdrefnau a'r rheolau Llywodraethu Gwybodaeth i ganiatáu i hyn ddigwydd.

11.5 Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Llywodraethu Gwybodaeth Cymru o'r blaen i ddarparu'r lefel briodol o sicrwydd annibynnol bod gan unrhyw gynigion i ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth bersonol y rhagofalon priodol yn eu lle i sicrhau cyfrinachedd y claf. Bydd y bwrdd hwn angen sicrwydd yr hysbyswyd pobl Cymru ac yr ymgynghorwyd â nhw'n briodol ynghylch rhannu gwybodaeth yn ehangach (yn arbennig rhwng asiantaethau), a rhaid iddo fod yn fodlon bod gofynion cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael eu bodloni.

11.6 Adnabod Cleifion

Mae adnabod pob claf yn gywir yn hanfodol er mwyn darparu gofal yn ddiogel. Mae Prif Fyngai Cleifion cenedlaethol yn cael ei gyflwyno, sy'n adnabod pawb yn unigryw yn ôl rhif GIG. Bydd unrhyw sefydliad yn gallu'i ddefnyddio unwaith y bydd y prosesau gwirio diogelwch priodol wedi cael eu cwblhau. Mae modd mabwysiadu'r system hon i'w defnyddio gan Gofal Cymdeithasol os mabwysiadir Rhif y GIG fel y rhif adnabod unigryw.

11.7 Rhannu Gwybodaeth rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae proses gaffael genedlaethol wedi cychwyn sy'n defnyddio manyleb gyffredin i Gymru gyfan ar gyfer systemau Gofal Cymdeithasol, Cymunedol ac lechyd Meddwl i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl safonau technegol cyffredin ac yn gallu rhannu gwybodaeth unwaith y mae'r protocolau priodol ar waith. Ond, rhaid cael cydbwysedd rhwng gofynion cyfreithiol diogelu data personol a dilyn protocolau cymeradwy ar gyfer rhannu gwybodaeth. Ymdrinnir â hyn yng Nghytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru y mae'n rhaid i bob sefydliad gytuno iddo er mwyn i'w staff allu rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

11.8 Cydweithio ar draws y Sector Cyhoeddus

Wrth i'r llwyfan rhannu gwybodaeth cenedlaethol, yr wyf wedi'i ddisgrifio'n fyr uchod, ddod yn realiti, ac er mwyn ei gefnogi, bydd angen inni ddatblygu swyddogaeth reoli gyffredin genedlaethol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, a'i rhoi ar waith. Bydd angen inni hefyd wella'r cydweithredu ar lefelau lleol a rhanbarthol rhwng Byrddau lechyd ac Awdurdodau Lleol. Yn dilyn arweiniad Bwrdd lechyd Powys

wrth iddo uno'n llwyddiannus ag Awdurdod Lleol Powys, rwy'n parhau i annog pob Bwrdd Iechyd i chwilio am bartneriaid a datblygu cynlluniau tebyg ar gyfer cydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddarparu gwasanaethau TGCh modern ac i wneud datblygiad proffesiynol staff TGCh Cymru yn flaenoriaeth llawer uwch ar gyfer y dyfodol.

Y DIWEDDARAF AM YMRWYMIADAU ALLWEDDOL Y RHAGLEN LYWODRAETHU

12. Gwella mynediad at Feddygon Teulu

12.1 Yn fy adroddiad gwybodaeth blaenorol, cyfeiriais at y cynnydd da a oedd wedi'i wneud yn lleihau'r nifer sy'n cau dros ginio ac am hanner diwrnod. Mae Byrddau Iechyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu yn eu hardaloedd i wella mynediad. Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi sefydlu rhyw fath o "Fforymau Mynediad" i arwain ar yr ymrwymiad allweddol hwn.

12.2 Rydym hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod mwy o apwyntiadau ar gael fin nos, rhwng 5pm a 6.30pm o fewn yr oriau contract er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n gweithio yn well. Does dim goblygiadau cost ychwanegol yn gysylltiedig â hyn. Cafodd gwybodaeth am amseroedd apwyntiadau meddygon teulu ei chyhoeddi ar 8 Tachwedd a nodai bod 93% o bractisau meddygon teulu yn cynnig apwyntiadau rhwng 5.00pm a 6.30pm ar ddwy noson yr wythnos o leiaf. Mae bron i ddwy ran o dair o bractisau bellach yn cynnig apwyntiadau rhwng 5.00pm a 6.30pm bum diwrnod yr wythnos. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod mwy o gleifion yn awr yn gallu gweld eu meddyg ar adeg sy'n fwy cyfleus iddynt hwy. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau ein bod yn cadw at ein hymrwymiad i wella mynediad at wasanaethau meddyg teulu ac, yn arbennig, mae angen gwneud mwy o waith o ran mynediad i apwyntiadau yn fuan yn y bore, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ar gyfer pobl sy'n gorfod teithio gryn bellter.

12.3 Bydd y cam nesaf, a fydd yn cychwyn yn 2013/14, yn canolbwyntio ar sicrhau y ceir mwy o fynediad ar ôl 6.30pm er mwyn darparu mwy fyth o hyblygrwydd i bobl sy'n gweithio. Mae Byrddau Iechyd wedi dweud y gellir delio â'r costau drwy'r gyllideb gwasanaethau gwell cyfredol. Bydd adolygiad o'r gyllideb gwasanaethau gwell, a fydd yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2012, yn rhoi manylion sut y gellir aildrefnu'r gwariant cyfredol i ddelio â'r costau sy'n gysylltiedig â mynediad gwell a'r rhesymeg dros leihau neu ddileu arian ar gyfer gwasanaethau gwell eraill.

12.4 O ran mynediad ar y penwythnos, mae gwaith wedi'i gomisiynu i ddatblygu model ar gyfer cael apwyntiadau yn ystod y cyfnod hwn. Rhagwelir y bydd modelau i sicrhau mynediad i apwyntiadau wedi'u trefnu ar y penwythnos yn cychwyn yn ystod 2014/15.

13. Dechrau'n Deg

13.1 Rydym wedi gwneud ymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym yn gobeithio datblygu a recriwtio gweithlu a fydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn derbyn adnoddau digonol i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd i hyfforddi a recriwtio ymwelwyr iechyd er mwyn gallu darparu'r rhaglen estynedig yn effeithiol. Mae ymwelwyr iechyd yn allweddol i'r rhaglen hon ac mae ganddynt rôl hollbwysig yn targedu'r teuluoedd mwyaf anodd cael atynt, a chlustnodi plant ag anghenion ychwanegol a chymhleth yn gynnar.

13.2 I gefnogi datblygu seilwaith y rhaglen, rydym wedi dyrannu £19 miliwn yn ychwanegol o arian cyfalaf rhwng 2012-13 a 2014-15. Mae llwyddiant Dechrau'n Deg yn dibynnu ar ddatblygu'r seilwaith ffisegol i gyflwyno elfennau'r rhaglen. Yn ymarferol, mae'r her hon yn cynnwys darparu lleoliadau gofal plant ychwanegol i oddeutu 4,500 o blant 2 - 3 oed. Bydd rhaid i bob un o'r lleoliadau hyn, pa un a ydynt yn cael eu hadeiladu o'r newydd neu eu hadnewyddu, gael eu datblygu yn y lle iawn ar yr amser iawn i ddarparu lleoliadau ffisegol ar gyfer darparu gofal plant ac ar gyfer gweithlu newydd a fydd yn cael ei recriwtio.

13.3 Comisiynwyd adolygiad o waith rhianta Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r adolygiad wedi'i gomisiynu i ystyried pa mor addas yw rhaglenni magu plant cyffredinol ar gyfer Dechrau'n Deg. Bydd hefyd yn edrych ar ba ganlyniadau y profwyd bod pob rhaglen wedi'u cyflawni mewn perthynas â'r gynulleidfa darged, i sicrhau bod y rhaglenni iawn yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol. Bydd y canfyddiadau yn cyfrannu at ehangu'r rhaglen yn y dyfodol.

14. Archwiliadau Iechyd i Bobl dros 50 oed

14.1 Rydym yn parhau â'r gwaith datblygu gofynnol i ddyfeisio rhaglen o archwiliadau iechyd addas i'r pwrpas. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen yn y Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi y bydd y gwaith paratoi yn para tan 2013, ac yn cael ei roi ar waith wedyn dros gyfnod o dair blynedd hyd at 2016.

14.2 Mae ein gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r cyfeiriad a fydd yn cael yn ei gymryd a fydd yn sail i weddill y cam datblygu. Wrth ddatblygu'r gwaith, rydym wedi edrych ar rôl technoleg mewn rhaglen archwiliadau iechyd, yr angen i gefnogi ac adeiladu ar wasanaethau perthnasol eraill, a'r angen i sicrhau bod y rhaglen yn estyn allan y tu hwnt i'r bobl 'boenus iach' draddodiadol. Rydym hefyd wedi ystyried yr ymchwil mwyaf diweddar yn y maes hwn a byddwn yn parhau i gynnwys rhanddeiliaid allweddol gydol y broses.

14.3 Ar ôl cael ei datblygu'n iawn, bydd y rhaglen hon yn gyfrwng pwysig ar gyfer grymuso a chefnogi pobl i reoli a dysgu am agweddau ar eu hiechyd eu hunain. Bydd yn cefnogi'r cysyniad o heneiddio'n dda ac yn ffurfio rhan o'r agenda gwella iechyd ehangach sy'n ceisio helpu pobl i aros yn iachach yn hirach. Rwy'n awyddus i gael dull holistig o weithredu a fydd yn delio ag amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i iechyd a lles cyffredinol pobl.

15. Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles newydd

15.1 Mae *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*, a gafodd ei lansio ar 22 Hydref, yn cydnabod y ffactorau sy'n diogelu ac yn cyfrannu at iechyd meddwl a lles gwell ymysg y boblogaeth, ffactorau megis tai digonol, cymunedau ffyniannus, gweithleoedd ac ysgolion iach a pherthnasoedd cadarn. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y costau cymdeithasol ac economaidd i Gymru sy'n deillio o iechyd meddwl gwael, ac mae'n dangos manteision cael dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws Llywodraeth.

15.2 Cefnogir y Strategaeth gan Gynllun Cyflawni tair blynedd hyd at 2016. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r prif bethau i'w cyflawni, yr amserlenni a'r mesuriadau y bydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru, asiantaethau statudol a'r Trydydd Sector i gyflawni canlyniadau'r Strategaeth.

15.3 Mae'r Strategaeth hefyd yn sicrhau bod *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010* yn rhan annatod ohoni, mesur sy'n gosod dyletswyddau statudol ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i wella'r gefnogaeth i bobl ag afiechyd meddwl. Trwy dderbyn cefnogaeth ariannol flynyddol o £5.5m o 2013–14, bydd y Mesur yn sicrhau:

- Bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn cael eu hymestyn
- Cydgysylltu/cynllunio gofal a thriniaeth i gwmpasu anghenion ehangach megis cyflogaeth, tai, cyllid ac addysg
- Hunangyfeirio at asesiadau gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd i'r rheini sydd wedi cael eu rhyddhau'n flaenorol
- Ehangu mynediad at wasanaethau Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol

15.4 Er mwyn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth, rydym yn sefydlu Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl newydd. Bydd y Bwrdd hwn – a fydd yn cynnwys gofawyr, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol – yn cydlynu ac yn rhoi sicrwydd ar y dull trawsbynciol o weithredu i roi'r strategaeth ar waith. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd.

15.5 Dyma gyflawniadau diweddar ym maes darparu gwasanaethau iechyd meddwl:

- Arian blynyddol o £1.5m i ehangu gwasanaethau dementia i bobl hŷn, sefydlu Gwasanaeth Dementia Cynnar newydd a phenodi cydgysylltwyr clinigol newydd
- £485,000 y flwyddyn i redeg ein Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Lles Cyn-filwyr
- Cyllid blynyddol o £1m er 2010 i sefydlu a chynnal gwasanaethau anhwylderau bwyta arbenigol
- Buddsoddi mewn cyfleusterau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i'r henoed ledled Cymru – yn cynnwys £25m i sefydlu Uned newydd yn ysbyty Wreccsam Maelor a £56m ar gyfer Uned yn ysbyty Llandochau (Caerdydd). Mae clinig newydd Angelton, Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu 42 gwely ar gyfer pobl hŷn sydd â dementia ar safle Ysbyty Glanrhyd
- Cymorth ariannol parhaus i nifer o fudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl a, drwy ein Byrddau Iechyd, arian i gefnogi mudiadau lleol, llai
- Mae gwell mynediad at Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi arwain at hyfforddi dros 10000 o bobl, a chyfluoedd hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig gyda dros 5000 o gyfranogwyr yn cymryd rhan.

15.6 Dangosir ein hymrwymiad parhaus i iechyd meddwl gan y cyllid sydd wedi'i neilltuo, sy'n cyfateb i'r lleiafswm y dylai ein Byrddau Iechyd ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae hwn wedi cynyddu bob blwyddyn, o £387.5 miliwn yn 2008–09 i £577 miliwn yn 2012–13.

16. Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

16.1 Cafodd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ei lansio yn 2003 a'i sail oedd bod heneiddio'n gysyniad cadarnhaol. Roedd hefyd yn ymateb i ragfynegiadau ar gyflymder a hyd a lled y newid demograffig ac, yn fwyaf arbennig, sut oedd hyn am effeithio ar

wasanaethau cyhoeddus a phobl hŷn sy'n byw yng Nghymru. Un o nifer o gyflawniadau'r Strategaeth oedd creu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru wedi derbyn cydnabyddiaeth sylweddol a chadarnhaol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Dechreuodd adolygiad o gam 2 ym Mehefin 2011 ac mae wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â gwaith datblygu cynigion ar gyfer cam 3 lle cysylltwyd yn helaeth â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Gam 3 ar 25 Hydref 2012. Bydd ar agor am 12 wythnos tan 17 Ionawr 2013. Bydd Cam 3 y Strategaeth yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2013. Argymhellir y bydd yn cynnwys cyfeiriad strategol cyffredinol a chyfres o gynlluniau gweithredu byrdymor a lunnir bob dwy i dair blynedd.

17. Fframwaith Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17.1 Ar 21 Tachwedd cafodd "*Mwy na geiriau...*", y fframwaith strategol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ei lansio gennyf. Bydd y fframwaith yn helpu i gryfhau gwasanaethau Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau drwy gydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae gallu defnyddio'u hiaith eu hunain yn elfen greiddiol o ofal, nid opsiwn ychwanegol.

17.2 Mae'r fframwaith yn cynnwys cynllun gweithredu 3 blynedd sy'n cychwyn ym mis Ebrill 2013. Hefyd bydd grŵp gweithredu'n cael ei sefydlu erbyn Ebrill a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a hwn fydd yn monitro sut y bydd y camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd y grŵp yn adrodd yn uniongyrchol i'r Dirprwy Weinidog a Thasglu'r Iaith Gymraeg.

18. Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

18.1 Dan y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) bydd yn rhaid i fusnesau bwyd arddangos sgoriau hylendid bwyd. Mae'r Bil yn parhau drwy

broses deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a bu'r Pwyllgor hwn yn ystyried diwygiadau fel rhan o Gam 2, ar 7 Tachwedd 2012.

18.2 Yn dilyn cyhoeddi'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft ym Mehefin, cyhoeddais grynodedb o'r ymatebion ymgynghori ym mis Hydref ynghyd ag arolwg ehangach o agweddau'r cyhoedd at roi organau. Mae'r canfyddiadau yn ategu bod cefnogaeth i'n gwaith a'r angen i roi ffocws cyson ar gyfathrebu. Derbyniodd y Pwyllgor hwn bapur briffio gan swyddogion ar yr ymgynghoriad ar 25 Hydref 2012. Ym mis Medi 2012 cafodd Cognition Ltd eu penodi gennym i wneud gwaith ymgysylltu penodol â chymunedau ffydd a chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, er mwyn dod i ddeall barn pob cymuned am roi organau a'r Bil arfaethedig, ac i hwyluso trafodaeth yn y cymunedau hynny ar y mater. Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol sylwadau ar y Bil drafft i Fforwm Ffydd y Prif Weinidog ar 24 Hydref 2012.

18.3 Gallaf gadarnhau y byddaf yn cyflwyno'r Bil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru maes o law, yn amodol ar benderfyniad y Llywydd, ac yn gwneud datganiad deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn ar 4 Rhagfyr 2012. Ni allaf ragweld fy natganiad deddfwriaethol yn y papur hwn, ond byddaf yn falch o dderbyn sylwadau cychwynol gan y Pwyllgor ar y Bil neu'r datganiad yn ystod y sesiwn tystiolaeth, er mwyn gallu sicrhau y byddaf yn gallu ymateb yn fanwl yn ystod gwaith craffu ffurfiol y Pwyllgor ar y Bil.

18.4 Ar 28 Mehefin 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol gwmpas a dyddiad cyflwyno diwygiedig ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), a'r bwriad i gyflwyno ail Fil ar Reoleiddio. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2013. Bwriad y Bil yw darparu'r bensaerniaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymadau ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru: 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu.' Bydd y Bil hefyd yn cyfrannu at raglen ehangach Llywodraeth Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Bydd Papur Gwyn yn cael ei lunio yn ystod Gwanwyn/Haf 2013 yn nodi cynigion ar gyfer Bil Rheoleiddio ar wahân.

18.5 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i 'ymgyngori ar yr angen am Fil ym maes Iechyd y Cyhoedd i osod dyletswyddau statudol ar gyrff i ystyried materion iechyd y cyhoedd.' Bydd Papur Gwyrdd yn cael ei gyhoeddi ar 29 Tachwedd ac rydym yn gofyn am farn am yr angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

18.6 Ar 31 Mai 2012, disgrifiais fy nghynigion am ddeddfwriaeth ar gyfyngu ar yr oedran y caiff pobl ifanc dderbyn triniaeth tyllu cosmetig. Bydd cynigion deddfwriaethol yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgyngori'n llawn arnynt unwaith y byddant wedi'u llunio'n derfynol.

MATERION PWYSIG ERAILL

19. Iechyd y Cyhoedd

19.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n gosod allan ein hymrwymiad clir i sefydlu ymgyrch iechyd flynyddol i fynd i'r afael â'r pum blaenoriaeth fwyaf ym maes iechyd y cyhoedd – alcohol, gordewdra, ysmegu, beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau, a chamddefnyddio cyffuriau. Rwy'n symud ymlaen ar yr ymrwymiad hwn drwy ein hymgyrch farchnata gymdeithasol Newid am Oes Cymru.

19.2 Mae dros 43,000 o deuluoedd ac oedolion wedi cofrestru ac rydym yn eu cefnogi ar eu taith tuag at ffordd o fyw iachach. Mae Gemau am Oes, a lanswyd ar 2 Gorffennaf, wedi'i ysbrydoli gan y Gemau Olympaidd, y gemau Paralympaidd a digwyddiadau chwaraeon mawr eraill. Mae'n hyrwyddo gemau syml a hwyl er mwyn helpu plant i gyrraedd targed o 60 munud egniol y diwrnod a 150 munud egniol yr wythnos i oedolion. Mae unigolion a theuluoedd yng Nghymru sy'n cofrestru yn derbyn cynlluniau personol i'w helpu i gyflawni eu nodau ymarfer dyddiol neu wythnosol. Mae oddeutu 8,700 o deuluoedd ac oedolion wedi ymuno â Gemau am Oes hyd yma, mwy na 25% o gynnydd yn aelodaeth Newid am Oes.

19.3 Yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, bydd negeseuon yr ymgyrch ar y niwed i iechyd a achosir gan yfed gormod o alcohol drwy "Paid gadael i'r ddiod dy ddal di'n slei bach."

19.4 Ers lansio Cychwyn Iach Cymru ym mis Chwefror, mae'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r perygl i blant pan fydd pobl yn ysmegu mewn ceir wedi canolbwyntio ar ddefnyddio radio lleol pan fydd pobl yn mynd i'w gwaith, byrddau arddangos ar ochr ffyrdd, hysbysebion ar gefn bysus ac ar lochesi bysus ar draws Cymru. Yn ystod yr haf, bu Cychwyn Iach Cymru yn noddi sioeau teithiol Capital FM a Heart FM. Ymhob digwyddiad, gofynnwyd i rieni lofnodi'r Addewid Haf i wneud ymrwymiad i gadw'u ceir yn ddi-fwg.

19.5 Bydd Cychwyn Iach Cymru yn noddi tywydd ITV Wales, tywydd S4C a Sgorio ym mis Medi 2012, a rhwng Rhagfyr 2012 ac Awst 2013. Mae ymgyrch hysbysebu hydref Cychwyn Iach Cymru yn cynnwys hysbysebu ar ochr ffyrdd yn agos at ysgolion, hysbysebu mewn sinemâu ac mewn canolfannau siopa. Mae'r ymgyrch hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook. Mae wedi cael ei ddatgan yn gyson y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dewisiadau deddfwriaethol os na fydd y ffigurau ar gyfer plant sy'n dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir yn dechrau disgyn o fewn y tair blynedd nesaf.

19.6 Mae'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rywiol ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010, yn mabwysiadu dull integredig ac eang ei sylfaen o weithredu ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles rhywiol cadarnhaol ac ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae'r Cynllun yn cynnwys cam gweithredu i fynd i'r afael â beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn rhai o'r ardaloedd â'r cyfraddau uchaf. Mae Cam 1 y prosiect yn targedu'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd ar ôl beichiogi pan oeddynt yn iau na 18 oed. Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2012 dan yr enw 'Grymuso i Ddewis'. Bydd Cam 2 y prosiect yn targedu menywod ifanc bregus, yn arbennig y rheini sydd mewn gofal mewn ardaloedd lle mae cyfraddau beichiogrwydd ymysg merched ifanc yn eu harddegau'n uchel. Gostyngodd cyfraddau beichiogi merched yn eu harddegau yn 2010 o 41 i 37.7 am bob 1000 o ferched o dan 18 oed.

19.7 Mae'r ymgyrch Dewis Doeth wedi lansio 'app' ar gyfer yr i-ffôn a ffonau smart symudol android er mwyn ceisio cyfeirio cleifion at y

gwasanaeth gofal iechyd mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae gan yr app gyfleusterau mapio GPS gyda chyfeiriadau at Adrannau Brys, gwasanaethau meddyg teulu, fferyllfeydd ac optometryddion ac mae'n cysylltu symptomau'r defnyddiwr â'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer ei anghenion. Mae'r app wedi'i lawrlwytho dros 1200 o weithiau ers ei lansio ym mis Awst. Mae Dewis Doeth Cymru wedi sefydlu cyfrif twitter hefyd i roi cyhoeddusrwydd i negeseuon allweddol yr ymgyrch i ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol.

19.8 Mae rhywun yn mynd yn ddiangen i Adran Frys yn costio £100 i'r GIG ac mae unrhyw un sy'n cael ei gludo yn ddiangen mewn ambiwlans yn costio oddeutu £249. Credwn fod un taliad o £26,000 am app i gyfeirio pobl i'r lle gorau ar gyfer cael triniaeth feddygol, yn werth da am arian. Dim ond ym mis Gorffennaf y cafodd yr app ei lansio a disgwyliwn i'r nifer sy'n ei lawrlwytho gynyddu'n gyson dros amser.

19.9 Mae ymgyrch radio gan Dewis Doeth sy'n cyfeirio cleifion at Galw Iechyd Cymru os nad ydynt yn siŵr pa wasanaeth sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, wedi arwain at gynnydd o dros 200% mewn ymweliadau â'r wefan. Mae hyn yn dangos bod cleifion yn dechrau mynd at wasanaethau iechyd llai aciwt cyn ystyried a ddylid mynd i adran achosion brys neu anfon am ambiwlans – un o negeseuon pwysig yr ymgyrch.

20. Mynd i'r afael â'r ddeddf gofal gwrthgyfartal

20.1 Er bod llawer o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, araf yn gwella y mae'r canlyniadau i'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Mewn rhai ardaloedd mae'r her hon yn cael ei dwysau oherwydd bod llai o wasanaethau'n cael eu darparu – y ddeddf gofal anghyfartal, fel y'i disgrifiwyd gan Dr Julian Tudor Hart. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ganfod lle gellid datblygu modelau newydd er budd cymunedau lleol a sicrhau mwy o gynnydd wrth ddatblygu gofal integredig lleol. Yn yr ardaloedd sydd wedi cael eu pennu mae llawer iawn o iechyd gwael. Rydym yn disgwyl y bydd yr hyn a ddysgir drwy'r dull gweithredu a ddewisir yn dylanwadu ar y gofal i bob cymuned ddifreintiedig yng Nghymru.

20.2 Mae cryfhau gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol yn flaenoriaeth er mwyn gwella'r gwaith o atal problemau iechyd a'u canfod yn gynnar, a darparu capasiti ar gyfer rheoli'r gwaith o ddarparu mwy o ofal yn y gymuned. Er bod adnoddau'n dynn, rydym wedi ymrwymo i wella canlyniadau iechyd ac mae angen dull wedi'i dargedu o weithredu i drawsnewid gofal mewn cymunedau sy'n profi'r angen mwyaf nad yw'n cael ei ddiwallu. Bydd y dull a ddefnyddir yn sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cydweithredu i ddiwallu anghenion pobl leol, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd ymgysylltu â chymunedau yn agwedd allweddol ar y gwaith hwn. Mae grŵp o arbenigwyr yn darparu cyngor a bydd methodoleg gwella 1000 o Fywydau a Mwy yn gwneud yn siŵr y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a'i arwain gan dimau ar y rheng flaen. Bydd rhagor o adnoddau'n cael eu darparu i helpu i gyflawni'r amcanion cytunedig i sicrhau y gellir gwneud cynnydd sydyn.

21. Prosiectau Cyfalaf

21.1 £261.7 miliwn ydy'n dyraniad cyfalaf ar gyfer 2012–13. O'r swm hwn, mae oddeutu £244 miliwn ar gael ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan, sy'n cefnogi buddsoddi yng nghyfleusterau, cyfarpar ac ystad y GIG. Defnyddir y gweddill ar gyfer grantiau cyfalaf mewn nifer o feysydd, gan gynnwys £5.690 miliwn i wella cyfleusterau trin pobl sy'n camddefnyddio alcohol drwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a £5.039 miliwn i ddarparu gwrthfesuerau iechyd i alluogi Cymru i ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd argyfwng.

21.2 Eleni, mae oddeutu 30 cynllun ar safleoedd, sy'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o dros £250 miliwn dros eu cyfnod adeiladu, gyda chynlluniau'n parhau i gael eu hadeiladu gan gynnwys:

- Prif ailddatblygiad Ysbyty Glan Clwyd (£94m);
- Ysbyty Plant Cymru (63m);
- Ysbyty Cyffredinol Bronglais – Blaen Tŷ (£30m).

21.3 Bydd 4 cynllun yn cychwyn sy'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad dros y cyfnod adeiladu o £84 miliwn, gan gynnwys:

- Gweledigaeth Iechyd Abertawe – Ailddatblygu Treforys Cam 1B (£60m);
- Uned Iechyd Meddwl Aciwt i Oedolion yn Llandochau (£12m o waith alluogi);
- Gweledigaeth Iechyd Abertawe – Uned Adsefydlu Arbenigol Cyfunol (£9.2m);
- Ailfodelu'r Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd (£2.2m).

21.4 Rwy'n disgwyl y bydd y cynlluniau canlynol wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn:

- Adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl – Cam 1 (£53m);
- Depo Ymbaratoi Gogledd Ddwyrain Cymru Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (£3.7m);
- Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (£3.6m).

22. Cynlluniau Recriwtio ar gyfer Meddygon

22.1 Nid oes gan Gymru broblemau staffio meddygol ar draws y bwrdd. Y gyfradd swyddi gwag ar draws Gymru ar hyn o bryd yw ychydig dros 3% o'r gweithlu meddygol a deintyddol a gyflogir yn uniongyrchol. Ond, rwy'n cydnabod bod anawsterau recriwtio dybryd mewn rhai meysydd arbenigol, graddfeydd ac ardaloedd daearyddol, a achosir gan:

- brinder ar draws y DU o feddygon mewn rhai meysydd arbenigol, megis Damweiniau ac Achosion Brys, Seiciatreg a Phediatreg
- llai o feddygon ar gael o du allan i Ewrop i lenwi swyddi oherwydd rheolau mewnfudo newydd, sydd wedi gwaethygu'r anawsterau recriwtio

- y ffaith nad yw rhai rhannau o Gymru wedi bod yn fannau poblogaidd i hyfforddi yn hanesyddol oherwydd ystyriaethau yn ymwneud â mynediad a bod yn wledig.

22.2 Yn dilyn lansio ail gam 'Gweithio dros Gymru' ym mis Ebrill, mae'r cynnydd hyd yma wedi cynnwys:

- Ffurio rhwydwaith o uwch glinigwyr o bob rhan o Gymru i weithredu fel eiriolwyr dros weithio a byw yng Nghymru. Maent yn hyrwyddo Cymru yn rhagweithiol yn eu maes a'u lleoliad penodol hwy ac yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y rheini sy'n ystyried swyddi yng Nghymru;
- Gwefan ryngweithiol newydd sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am fyw a gweithio yng Nghymru mewn un lle a gwell mynediad ar y we at gyfleoedd gwaith
- Ymgyrch gyhoedduswydd yn y wasg arbenigol
- Targedu ffeiriau recriwtio a gyrfaedd ar draws y DU a phresenoldeb sylweddol yn Ffair Yrfaedd flynyddol y BMJ yn Llundain fis Hydref diwethaf
- Parhau i godi proffil Cymru a'r cyfleoedd ar gyfer meddygon: yn ddiweddar rhoesom gyhoedduswydd (ar y cyd â NISCHR) i'r cyfleoedd am ymchwil mewn gyrfaedd meddygol yng Nghymru

22.3 Er mai nod y mesurau hyn yw cefnogi Byrddau ac Ymddiriedolaethau lechyd i lenwi swyddi gwag, mae cynllunio'r gweithlu'n effeithiol yn hollbwysig i sicrhau y bydd y gweithlu meddygol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol mewn marchnad lafur sy'n fwyfwy cystadleuol yn y DU.

22.4 Dan broses cynllunio'r gweithlu'n integredig ar gyfer GIG Cymru, rhaid i bob Bwrdd/Ymddiriedolaeth nodi'n fanwl y meddygon iau ymhob arbenigedd (yn ogystal â staff arall) y rhagwelir y bydd eu hangen arnynt am chwe blynedd i'r dyfodol. Bydd y cynlluniau gwasanaeth newydd a fydd yn deillio o unrhyw ailffurfweddu ar wasanaethau yn cael eu cynnwys yn y gwaith hwn. Defnyddir offer modelu manwl i gymharu a rhagweld yr angen yn y dyfodol am staff

meddygol ar bob lefel ac rydym hefyd yn cyfrannu at y gwaith modelu ehangach yn y DU yng nghyswllt y gweithlu meddygol. Hefyd, mae gan Fwrdd Academaidd Deintyddol a Meddygol newydd Cymru gylch gorchwyl i edrych ar ddatblygu strategaeth gweithlu gynaliadwy a fydd yn darparu gweithlu meddygol i ddiwallu anghenion GIG Cymru i'r dyfodol.

23. Gwasanaeth Ambiwlans

23.1 Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi wynebu cyfnod eithriadol o heriol ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Mae'r GIG yng Nghymru, fel gweddill y DU, wedi gweld cyfnod estynedig o bwysau ers gaeaf y llynedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd parhaus yn y galw cyffredinol ar y gwasanaeth ambiwlans ynghyd â nifer mwy o gleifion sy'n cael eu rhoi yn y categori bywyd yn y fantol.

23.2 Er gwaetha'r cynnydd hwn yn y galw a pherfformiad salach yn erbyn y safon 8 munud, mae mwy o bobl nag o'r blaen yng Nghymru yn derbyn ymateb sy'n achub bywyd ac mae mwy yn cael siawns gwell o oroesi, cymorth lladd poen yn gynnar a'r gofal achub bywyd sydd ei angen arnynt.

23.3 Fodd bynnag, oherwydd y pwysau pellach a ddisgwylir yn ystod y misoedd nesaf mae'n amlwg y bydd y sefyllfa'n aros yn heriol i'r gwasanaeth ambiwlans a'r Byrddau lechyd. I helpu i leihau'r pwysau hyn, cafodd £1 miliwn ei ddarparu i Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 1 Hydref er mwyn iddynt gydweithio'n benodol i ddarparu cynlluniau gwella gwasanaethau ambiwlans fel rhan o'r £10 miliwn a ddarperais ar gyfer cronfa fuddsoddi gofal heb ei drefnu.

23.4 Mae'n galonogol gweld bod yr Ymddiriedolaeth (WAST) wedi comisiynu adolygiad defnydd annibynnol o weithrediadau a chanolfannau rheoli ambiwlansys ledled Cymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi'r holl brosesau, arbedion effeithlonrwydd posibl yng nghyswllt lefelau staffio a rhestrau

dyletswyddau, rolau a chyfrifoldebau. Disgwylir y bydd yn arwain at welliannau tymor byr a chanolig mewn effeithiolrwydd ac arbedion effeithlonrwydd.

23.5 Mae'r gwelliannau hyn yn rhan o strategaeth uchelgeisiol yr Ymddiriedolaeth sy'n gweld ei hun yn symud o fod yn ddarparwr trafndiaeth yn unig i ddarparwr gofal iechyd symudol, effeithiol ac ymatebol iawn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu sicrwydd ei bod yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ac ar ddenu staff o'r safon uchaf sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn teimlo balchder wrth ddarparu'r canlyniadau gorau un i gleifion.

23.6 Ond, o gofio am y pwysau parhaus ar yr Ymddiriedolaeth Ambiwllans, rwyf i hefyd wedi comisiynu adolygiad byr a fydd yn edrych ar bethau yn ehangach, gan gynnwys y berthynas â Byrddau Iechyd, trefniadau ariannu, targedau, strwythur ac a oes modd addasu'r trefniadau presennol; a'r berthynas rhwng gwasanaethau cludo cleifion brys a chleifion eraill. Mae fy swyddogion wrthi'n paratoi cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad a fydd yn cael ei rannu ag Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd Tachwedd.

24. Darparu gwasanaethau niwrowyddorau yng Nghymru

24.1 Gall cyflyrau niwrolegol effeithio ar bobl o bob oed a gallant ymddangos ar unrhyw adeg ym mywyd person. Gallant effeithio ar ansawdd bywyd person ac, i rai, byddant yn arwain at anabledd gydol oes. Mae'n bwysig fod pobl sydd â chyflwr niwrolegol yn cael y driniaeth a'r gofal iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn.

24.2 Roedd yr Adolygiad o Wasanaethau Niwrowyddorau i Oedolion 2008 yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwasanaethau niwroleg a niwroadsefydlu yn fwy lleol, gan leihau'n sylweddol yr angen i gleifion deithio ac, yn y pendraw, helpu i wella eu hiechyd a'u hansawdd bywyd. Rydym yn cydnabod y bydd angen darparu gwasanaethau tra arbenigol mewn un neu ddwy o ganolfannau rhagoriaeth. Yr her yw datblygu'r gwaith hwn yng nghyd-destun adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth.

24.3 Mae staff y GIG yn gweithio'n galed i sicrhau cynnydd go iawn ac mae cryn gynnydd wedi'i wneud ledled Cymru yn rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Dyma rai o'r prif gyflawniadau:

- Gwasanaeth niwrolawfeddygol cwbl weithredol i gleifion mewnol ar gyfer De Cymru yng Nghaerdydd
- Mwy a gwell capasiti llawfeddygol yn Ysbyty Treforys
- Sefydlu gwasanaeth 24/7 ar gyfer anafiadau difrifol i asgwrn y cefn
- Sefydlu cyfarfodydd timau amlddisgyblaeth a llwybrau gofal ar draws Cymru.
- Gwelliannau mewn delweddu a diagnosteg
- Cryfhau'r gweithlu allweddol gan gynnwys penodi niwrolegwyr a niwroffisiolegwyr.

24.4 Mae'r gwaith yn parhau i gyflawni'r gofynion uchelgeisiol a ddisgrifir yn yr adolygiad cynhwysfawr hwn. Mae Bwrdd Prosiect Canolbarth a De Cymru wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y camau gweithredu a argymhellwyd gan yr adolygiad, ond nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith, i'r Byrddau Iechyd unigol perthnasol, gyda'r Grŵp Cyfarwyddwyr Cynllunio yn cael y gwaith o fonitro'r cynnydd. Yng Ngogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi sefydlu Rhwydwaith Niwrowyddorau Gogledd Cymru i ddatblygu'r gwaith.

25. Adolygu'r Cydbwysedd Cymwyseddau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

25.1 Gan fwrw ymlaen ag ymrwymiad y glymblaid i ystyried y cydbwysedd cymhwysedd rhwng y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE), lansiodd yr Ysgrifennydd Tramor yr adolygiad cydbwysedd cymwyseddau yn y Senedd ar 12 Gorffennaf eleni.

25.2 Bydd yr adolygiad o'r cydbwysedd cymwyseddau yn archwilio effaith y cydbwysedd pwerau cyfredol rhwng y DU a'r UE er budd cenedlaethol y DU a bydd yn agored ac yn dryloyw. Mae Gweinidogion y DU wedi datgan yn glir eu bod am gael barn o bob rhan o'r DU gan

gynnwys y Gweinyddiaethau Datganoledig a grwpiau budd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

25.3 Bydd yr adolygiad yn darparu dadansoddiad o'r hyn y mae aelodaeth y DU o'r UE yn ei olygu ar gyfer buddiannau cenedlaethol y DU. Ei nod yw gwella dealltwriaeth y cyhoedd a'r Senedd o natur ein haelodaeth o'r UE a darparu cyfraniad adeiladol at y ddadl genedlaethol a thraws-Ewropeaidd ar foderneiddio, diwygio a gwella'r UE yng ngoleuni cyd-heriau.

25.4 Ni ofynnir iddo lunio argymhellion penodol nac edrych ar fodelau amgen ar gyfer perthynas gyffredinol Prydain â'r UE.

25.5 Rhennir yr adolygiad yn gyfres o adroddiadau ar feysydd cymhwysedd penodol yr UE, wedi'i rannu dros bedwar semester rhwng hydref 2012 a hydref 2014. Maes 'lechyd' yw un o'r chwe maes a fydd yn cael sylw yn y semester cyntaf (hydref 2012 tan haf 2013).



Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-33-12 papur 2

Yr wybodaeth ddiweddaraf o'r UE: (i) Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2013; a'r (ii) Adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau rhwng yr UE a'r DU

Papur i'w nodi:

Dyddiad y papur

27 Tachwedd 2012

Paratowyd y papur hwn gan Swyddfa'r UE.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones (ffôn. 0032 2 226 6692) E-bost:

Gregg.Jones@cymru.gov.uk



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Diben a chynnwys y wybodaeth hon	3
3.	Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2013 (WP2013)	4
3.1.	Proses ddeinamig yn canolbwyntio ar fentrau sydd ar ddod	4
3.2.	Prif amcanion a mentrau ar gyfer 2013	4
3.3.	Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (a llywodraethau eraill y DU).....	5
3.4.	Meysydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	5
4.	Adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau ar lefel yr UE a'r DU	7

1. Cyflwyniad

O dan y Pedwerydd Cynulliad, cafodd materion Ewropeaidd eu prif ffrydio (fel sy'n berthnasol) i waith yr holl bwyllgorau, a bellach nid oes pwyllgor arweiniol yn gyfrifol am Faterion Ewropeaidd ac Allanol.

Gellir cymryd rhan ym materion yr UE mewn nifer o ffyrdd:

- Cymryd rhan yn y broses bolisi/ddeddfwriaethol (gan gynnwys mynd i'r afael â sybsidiaredd a phryderon eraill yn ogystal ag edrych ar fanylion polisi ac effaith bosibl cynigion)
- Asesu cyfranogiad sefydliadau o Gymru mewn rhaglenni ariannu'r UE a dulliau eraill o gydweithio
- Meincnodi a dysgu o arferion gorau/gwahanol mewn mannau eraill yn Ewrop (ymagwedd o edrych tuag allan ar ffurfio polisi yng Nghymru)

Un o'r dulliau safonol ar gyfer adnabod blaenoriaethau o ran gwaith yr UE ar gyfer Pwyllgorau yw Rhaglen Waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cael ei chyhoeddi yn ystod yr hydref fel arfer (mis Hydref/Tachwedd), ac mae hyn yn dod o fewn cwmpas y cyntaf o'r pwyntiau bwled a restrir uchod.

2. Diben a chynnwys y wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn darparu trosolwg o'r prif ddatblygiadau sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn fersiwn ddiweddaraf Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2013 (WP2013), a gyhoeddwyd ar 23 Hydref¹. Mae hefyd yn cyfeirio at nifer o fentrau sydd ar fynd ac a ddygwyd ymlaen o Raglenni Gwaith blaenorol y Comisiwn Ewropeaidd ac sy'n parhau i fod yn berthnasol.

Yn olaf, mae'n cynnwys adran ar Adolygiad Llywodraeth y DU o'r Cydbwysedd Cymwyseddau rhwng yr UE a'r DU, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf ac a gaiff ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf.

Noder fod briffiau hefyd yn cael eu darparu ar gyfer pwyllgorau eraill y Cynulliad.

Camau arfaethedig:

¹ COM(2012)629. Ar gael ar dudalennau [Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd](#) gwefan y Comisiwn Ewropeaidd.

Gofynnir i Aelodau nodi cynnwys y papur.

3. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd 2013 (WP2013)

3.1. *Proses ddeinamig yn canolbwyntio ar fentrau sydd ar ddod*

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweld y Rhaglen Waith fel dogfen ddeinamig: caiff ei diweddarau yn fisol, ac fe'i hategir gan amrywiol 'fapiau' sy'n darparu mwy o fanylion am bob un o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys (ac sy'n cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn). Felly, nid yw'r cyhoeddiad blynyddol, o angenrheidrwydd, yn cynnwys yr holl gynigion a gaiff eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn, gan y gall rhai eraill gael eu hychwanegu wrth iddynt 'aeddffedu' (tra bydd eraill efallai, yn dod oddi ar y rhestr neu'n cael eu hoedi).

Hefyd, dim ond gwybodaeth am fentrau a gynlluniwyd neu fentrau sydd ar ddod sy'n cael ei chynnwys yn y Rhaglen Waith. Ar ôl i gynnig gael ei gyhoeddi ni fydd yn ymddangos yn Rhaglen Waith y flwyddyn nesaf hyd yn oes os yw'r cynnig yn parhau i gael ei drafod neu ei negodi gyda Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion.

Dyna'r achos gyda nifer o goflenni allweddol gan gynnwys y trafodaethau ar Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014–2020, a'r amrywiol raglenni ariannu sy'n dod o fewn hwn (fel Cronfeydd Strwythurol yr UE, y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ati).

3.2. *Prif amcanion a mentrau ar gyfer 2013*

Mae saith amcan cyffredin ar gyfer WP2013, gyda'r mentrau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sydd wedi'u cynllunio wedi'u grwpio o dan yr amcanion hyn:

- Cael y sylfeini'n gywir: tuag at Undeb Economaidd ac Ariannol wirioneddol
- Hybu cystadleuaeth drwy'r Farchnad Sengl a pholisi diwydiannol
- Cysylltu er mwyn cystadlu: Adeiladu rhwydweithiau yfory heddiw
- Twf ar gyfer swyddi: Cynhwysiant a rhagoriaeth
- Defnyddio adnoddau Ewrop i gystadlu'n well
- Adeiladu Ewrop ddiogel
- Tynnu'n pwysau: Ewrop fel gweithredwr byd-eang

Cafodd y mentrau hyn eu cynnig yn ystod cyfnod o ansicrwydd mawr yn yr UE, o ganlyniad i'r argyfwng ariannol ac economaidd parhaus a'r ansefydlogrwydd yn Ardal yr Ewro. Mae'r agenda'n canolbwyntio'n arw ar ddarparu swyddi a thwf, a gosod y sylfeini i symud tuag at undeb economaidd ac ariannol agosach o fewn Ardal yr Ewro.

3.3. *Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (a llywodraethau eraill y DU)*

Mae Llywodraeth y DU yn paratoi memoranda esboniadol, mewn ymgynghoriad â'r Gweinyddiaethau Datganoledig (fel yr ystyrir yn briodol), ynghylch yr holl ohebiaeth ddeddfwriaethol ac anneddfwriaethol sy'n dod o Frwsel.

Paratowyd Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer WP2013² y Comisiwn Ewropeaidd ar 13 Tachwedd, ac mae'n cyfeirio at safbwyntiau Llywodraeth Cymru (a Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) ar y blaenoriaethau arfaethedig.

Nodir y canlynol ar gyfer Cymru:

...The Welsh Government welcomes the Work Programme's focus on sustainable growth and jobs as being broadly consistent with the approach in its Programme for Government. In particular, the Welsh Government welcomes the proposals to boost competitiveness, including through the strengthening of the Single Market, access to finance for SMEs and investing in networks for telecoms, energy and transport. The Welsh Government similarly agrees with the promotion of social inclusion and the raising of skills levels as being one of the priorities of the European semester. The Welsh Government's central organising principle is sustainable development and it therefore supports the Commission's focus on the better use of resources and measures including new proposals to provide a long-term perspective on the move to a low-carbon economy and a new strategy on the adaptation to climate change. [Paragraph 9]

3.4. *Meysydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

Mae'n amlwg o'r adrannau uchod mai'r economi yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer 2013, gyda'r pwyslais ar greu swyddi a thwf, tra bod pwyslais cryf hefyd ar goflenni amgylcheddol.

Mae llai o ddiddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac awgrymir ein bod yn 'cadw llygad' ar y mentrau hynny a amlygir isod, gan nad yw'r rhain yn debygol o fod â blaenoriaeth uchel o'u cymharu â'r gwaith arall ar agenda'r Pwyllgor ar gyfer 2013:

Mentrau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn WP2013:

² Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU 15691/12, dyddiedig 13 Tachwedd 2012

- Defnyddio techneg clonio anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu bwyd [cynigion deddfwriaethol]
 - tynnwyd sylw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at hyn hefyd gan ei bod yn fwy tebygol iddo ddod o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwnnw na'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynhyrchion cyfansawdd a hylendid archwilio cig [Cynigion deddfwriaethol]:
 - yn dilyn adolygiad (2009) o'r broses o roi Pecyn Hylendid Bwyd yr UE 2004 ar waith, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig diwygio'r deddfwriaeth hon i wneud nifer o welliannau (gan gynnwys rhoi cwmpas mwy clir ar gyfer asesiadau 'sy'n seiliedig ar risg', lleihau'r baich gweinyddol, rhoi eglurder ar rai diffiniadau/arferion)

Mentrau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nad ydynt yn dod o fewn WP2013:

- Strategaeth Awtistiaeth ar gyfer Ewrop:
 - Mae Awtistiaeth Cymru, Partneriaeth Awtistiaeth y Gwledydd Celtaidd ac Awtistiaeth Ewrop yn llobio i lywyddiaeth Iwerddon o'r UE geisio mabwysiadu casgliadau'r Cyngor ar awtistiaeth, a fyddai'n galw am sefydlu strategaeth awtistiaeth i'r UE gyfan [anneddfwriaethol]

Mentrau eraill sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac sy'n cael eu dwyn ymlaen o WP2012³:

- [Rhaglen Iechyd ar gyfer Twf yr UE 2014–2020](#): prif offeryn ariannu pwrpasol yr UE ar gyfer iechyd cyhoeddus. Mae'r cynigion a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011 yn mynd drwy broses gwneud penderfyniadau'r UE
- [Moderneiddio Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE](#): goblygiadau posibl newidiadau yn neddfau'r UE i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd y cynigion eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2011 ac mae'r rhain yn mynd drwy broses deddfwriaethol yr UE. Cynhaliodd Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad ymchwiliad (drwy grŵp gorchwyl a gorffen) gan gyhoeddi'i [adroddiad ym mis Mai 2012](#).

³ Darparwyd manylion am y rhain yn y wybodaeth ddiweddaraf o'r UE i'r Pwyllgor (RS111855) ar gyfer ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2011

4. Adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau ar lefel yr UE a'r DU⁴

Ar 12 Gorffennaf cyhoeddodd William Hague, Ysgrifennydd Tramor Llywodraeth y DU ei fwriad i gynnal adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau rhwng yr UE a'r DU, o fewn cyd-destun y trafodaethau parhaus ynghylch trefn lywodraethu'r UE yn y dyfodol:

...The crisis in the Eurozone has intensified the debate in every country on the future of Europe and there is no exception here. Now is the right time to take a critical and constructive look at exactly which competences lie with the EU, which lie with the UK, and whether it works in our national interest.

This will be a thorough and analytical piece of work, involving many Government Departments and taking evidence from representatives from business and other interest groups, the British public and our EU and global partners. I want to take stock of the impact of the EU on our country based on a detailed assessment of those things that derive from EU law that affect us in the UK. [*pages 4-5, foreword of Review document published 12 July*]

Ar 23 Hydref gwnaeth yr Ysgrifennydd Tramor ddatganiad yn nodi cynlluniau mwy manwl ar y ffordd y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal yr adolygiad dros y ddwy flynedd nesaf.

Caiff yr adolygiad ei gynnal dros bedwar tymor sy'n gorgyffwrdd, gyda phob tymor yn mynd i'r afael â nifer o faterion polisi thematig, gan ddod â'r adolygiad i ben erbyn diwedd 2014. Nodir y meysydd hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol isod (mae manylion llawn ar gael o wefan Llywodraeth y DU):

Tymor 1: Hydref 2012–Haf 2013

- Iechyd
- Hylendid Bwyd (rhan o'r adolygiad o Les Anifeiliaid a Hylendid Bwyd)

Tymor 2: Gwanwyn 2013–Gaeaf 2013

Dim byd yn berthnasol i'r Pwyllgor

Tymor 3: Gwanwyn 2013–Haf 2013

- Marchnad Fewnol (gwasanaethau – o bosibl yng nghyd-destun mesurau i ddileu rhwystrau rhag rhedeg marchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau o fewn yr UE)

⁴ Mae manylion ar gael (gan gynnwys y cyhoeddiadau y cyfeirir atynt yn yr adran hon) ar [dudalennau gwe Cydbwysedd Cymwyseddau](#) Llywodraeth y DU

- Cymdeithasol a chyflogaeth (o bosibl yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith a deddfwriaeth yn ymwneud â chyflogaeth sy'n effeithio ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol)

Tymor 4: Gwanwyn 2014–Hydref 2014

Dim byd sy'n arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor

Ym mhob un o'r meysydd hyn, bydd Adran berthnasol o Lywodraeth y DU yn arwain, gan gynnal yr adolygiad mewn ymgynghoriad ag 'arbenigwyr, sefydliadau ac unigolion sy'n dymuno rhoi eu barn ar bob mater'.

Bydd yr adolygiad yn:

...look at the EU's competences (the power to act in particular areas conferred on it by the EU Treaties), how they are used, and what that means for Britain and our national interest.

The process will be comprehensive, well-informed and analytical. Government departments will be tasked with consulting Parliament and its committees, business, the devolved administrations, and civil society to look in depth at how the EU's powers work in particular areas. [Page 12 of the Review document published on 12 July]

Nid oes cyfeiriad manwl at gynnwys y 'deddfwrfeydd datganoledig' yn y broses hon, er y cyfeirir at Senedd y DU a'r 'gweinyddiaethau datganoledig', ym mhapur Llywodraeth y DU.

Un llwybr y gall y Pwyllgor fod yn dymuno ei ystyried ar gyfer cymryd rhan yn yr Adolygiad fyddai defnyddio sesiynau Gweinidogol Llywodraeth Cymru fel ffordd o egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn yr adolygiad (neu sut mae'n bwriadu gwneud hynny) ac a fydd yn gwneud hynny.

Eitem 3b

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSC(4)-33-12 papur 3

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Gwenda Thomas AC / AM
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Drakeford AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf / Our ref SF/LG/3071/12

Tachwedd 2012

Annwyl Mark

Rydym yn cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 22^{ain} Hydref a oedd yn cynnwys copi o'ch llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Dyma ymateb i'r materion roeddech wedi'u codi.

1. Gwybodaeth

Rydym yn falch bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud o ran cyflwyniad ac eglurder papurau'r gyllideb a'r dystiolaeth ysgrifenedig.

Roeddech yn cyfeirio at y £5 biliwn sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y Weithred "Cyflenwi Gwasanaethau Craidd". Yn nogfen naratif y gyllideb a ddaeth gyda'r Gyllideb Ddrafft, am y tro cyntaf roeddem wedi cyhoeddi dyraniadau dangosol Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2013-14 sy'n cael eu cyllido o'r Weithred hon. Er hwylustod mae'r rhain yn cael eu rhoi isod.

Dyraniadau Refeniw Dangosol Byrddau Iechyd 2013-14

	£000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	851,215
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	934,626
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1,149,556
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	714,970
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	512,489
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	639,718
Bwrdd Iechyd Powys	227,118
Cyfanswm	5,029,692

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Tudalen 40

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Gallai'r dyraniadau dangosol hyn newid a byddant yn cael eu cadarnhau yn nogfen Dyraniadau Refeniw Byrddau Iechyd 2013-14 a gyhoeddir cyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd copi o'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd y ddogfen Dyraniadau Refeniw Byrddau Iechyd yn rhoi rhagor o fanylion am y ffrydiau ariannu gwahanol a ddarperir i bob Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y ffrydiau ariannu hynny sydd wedi'u neilltuo at ddibenion penodol. Bydd yn rhoi manylion y cyllid sydd ar gael i bob Bwrdd Iechyd i dalu costau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol a Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol, gan gynnwys cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Ac eithrio ffrydiau ariannu wedi'u neilltuo, mae rhwydd hant i Fyrddau Iechyd Lleol ddefnyddio eu dyraniad fel sy'n briodol yn eu barn nhw i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu poblogaeth a chyflawni yn ôl blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Roedd Gosod y Cyfeiriad yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yng nghyswllt trawsnewid gwasanaethau ac ail gydbwysu gofal o ysbytai i sefydliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Y ffocws yw datblygu gwaith integredig rhwng y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd a datblygu modelau gofal newydd i ddiwallu anghenion pobl yn y ffordd orau yn eu hardal leol. Y nod yw mynd ati'n weithredol i dynnu cleifion at wasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi'u trefnu yn nes at eu cartref a chyflenwi rhagor o wasanaethau a chefnogaeth mewn sefydliadau sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol gosod cyllideb flynyddol yn genedlaethol ar gyfer faint o gyllid a ddefnyddir ym mhob sefydliad gofal. Mae'n fwy priodol i bob Bwrdd benderfynu ar hynny'n lleol ar sail sut y maen nhw'n ymateb i'r weledigaeth hon yn unigol.

O ran bod yn fwy eglur ynghylch trosglwyddo rhwng cyllidebau, rydym wedi rhoi manylion i'r Pwyllgor am y symudiadau rhwng Gweithredoedd a rhagor o fanylion am drosglwyddo rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Yn y sesiwn craffu eglurodd swyddogion fod nifer o'r symudiadau'n adlewyrchu newidiadau mewn trefniadau cyflenwi ar gyfer rhaglenni ac nad oeddent yn ostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y rhaglenni hynny. Er enghraifft, trosglwyddo cyllid o gyllidebau rhaglenni presennol i gyllidebau refeniw craidd y Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar ben hynny, mae £2.1 miliwn wedi cael ei drosglwyddo o'r Weithred Cefnogi Addysg a Hyfforddiant i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn 2013-14 yng nghyswllt cyllid a fydd yn llifo drwy CCAUC i Brifysgol Caerdydd i gefnogi addysg feddygol israddedig.

2. Cyllido Byrddau Iechyd Lleol

Mae'r drefn ddeddfwriaethol bresennol yn rhoi dyletswyddau ariannol penodol ar Fyrddau Iechyd Lleol unigol, yn bennaf gan fynnu na fydd faint o adnoddau a ddefnyddir mewn blwyddyn ariannol yn fwy na'r swm a bennwyd ar gyfer y flwyddyn honno gan Weinidogion Cymru. Cydnabyddir bod hyn yn gallu cyfyngu ar sefydliadau'r GIG i gael yr hyblygrwydd i gynllunio a threfnu eu hadnoddau dros y tymor canolig.

Mae'n hanfodol gallu cynllunio a threfnu gwasanaethau mewn ffordd hyblyg sy'n diwallu'r galw a'r gofynion. Mae symud adnoddau o amgylch y system, rhwng ffiniau ac ar draws blynnyddoedd ariannol, yn rhan angenrheidiol o'r trefniadau i gyflenwi gwasanaeth iechyd effeithiol. O ganlyniad, mae gwaith i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol yn cael ei wneud gan weithgor sy'n cynnwys gweithwyr ariannol proffesiynol o'r GIG a Llywodraeth Cymru.

Gan gydnabod y gallai gymryd blynnyddoedd i weithredu newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, yn y lle cyntaf mae'r gweithgor hwn yn ystyried dewisiadau mae modd eu gweithredu yn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae'r rhain yn golygu atebion tymor hwy ar gyfer hyblygrwydd tymor canolig wedi'i gynllunio ac atebion tymor byrrach ar gyfer broceriaeth.

Mae trefniant hyblygrwydd wedi'i gynllunio'n cael ei ystyried i gefnogi'r cynllunio tymor hwy a'r cylch ariannol, a bwriedir iddo ddarparu adnoddau hyblyg sy'n gysylltiedig â chynllun ariannol tymor canolig, integredig, cytbwys a chymeradwy. Rhagwelir y byddai Byrddau Iechyd Lleol yn ceisio'r trefniant hwn pan fyddant yn rhagweld uchelbwyntiau ac iselbwyntiau ariannol mewn cynllun ariannol 3 blynedd cytbwys.

Ar y llaw arall, yn aml bydd materion ariannol penodol yn codi yn ystod y flwyddyn a sialensiau tymor byr nad oes modd cynllunio ar eu cyfer ac nad yw'n hawdd eu rhagweld, ac yn yr amgylchiadau hyn cydnabyddir bod angen trefniadau hyblygrwydd ychwanegol a thymor byrrach. Mae trefniant broceriaeth tymor byr yn cael ei ddatblygu fel trefniant rhannu risg, yn debyg i Gronfa Risg Cymru, a fyddai'n galluogi Byrddau Iechyd Lleol i alinio cyllid â gwariant ar ddiwedd blwyddyn, er mwyn cael cydbwysedd ariannol a diwallu'r Ddyletswydd Terfyn Adnoddau statudol sydd eisoes yn bodoli.

Byddai'r dewisiadau tymor canolig a thymor byr yn cael eu rheoli yng nghyllideb Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio cyllidebau Iechyd canolog, cronfeydd wrth gefn a chyllidebau rhaglenni mewn ffordd wedi'i chynllunio.

Ar ben hynny, mae gwaith wedi cael ei ddechrau i edrych ar y cyfleoedd pellach y gellid eu darparu drwy newid deddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu amgylchedd gweithredu ariannol presennol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol. Mae hyn yn ateb tymor hirach o lawer. Os yw'r newidiadau arfaethedig i deddfwriaeth sylfaenol yn ymarferol, ni ddisgwylir y byddai sefydliadau'r GIG yn elwa o unrhyw newidiadau arfaethedig tan o leiaf 2015/16.

3. Tybiaethau'r gyllideb a chynllunio ar gyfer cyflenwi ymrwymadau'r gyllideb

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth am ymrwymadau penodol yn y Rhaglen Lywodraethu.

Gyda golwg ar gyllid ar gyfer archwiliadau Iechyd i bobl dros 50 oed, byddwn yn ystyried cyngor pellach ar y gwaith hwn maes o law, ac wedyn byddwn yn penderfynu ar ein dull gweithredu manwl. Mae swyddogion yn gweithio i lunio cynnig cyffredinol i'w ystyried, gan gynnwys cyngor am fodolau cyflenwi, amserlen gweithredu a chostau. Byddai'n amhriodol rhoi rhagor o sylwadau am y manylion ar hyn o bryd, cyn cael cyfle i ystyried hyn ymhellach. Fodd bynnag, bydd unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon yn 2013-14 yn dod o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli, y rheini ar gyfer rhaglenni gwella Iechyd yn bennaf.

Gyda golwg ar gyllid ar gyfer gwella'r mynediad at wasanaethau meddygon teulu i bobl sy'n gweithio, bydd ail gam y rhaglen hon, o 2013/14, yn canolbwyntio ar sicrhau bod apwyntiadau ar gael y tu allan i oriau contract, hynny yw ar ôl 6.30pm. Ar hyn o bryd mae 11% o feddygfeydd yn cynnig oriau agor estynedig gwasanaeth ychwanegol dan gyfarwyddyd, sy'n costio £0.7m y flwyddyn, sy'n gyfystyr â thua dwy awr ychwanegol fesul meddygfa gyda 6,000 o gleifion. Y bwriad fydd cyllido cost ychwanegol y mynediad estynedig hwn gydag adnoddau sydd eisoes ar gael, drwy adolygu ac ail-alinio'r gwariant presennol ar wasanaethau ychwanegol. Ar sail y fanyleb bresennol a gan ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant, amcangyfrifir mai'r costau ar gyfer cynyddu nifer y meddygfeydd sy'n cynnig oriau agor estynedig gwasanaeth ychwanegol dan gyfarwyddyd (un noson neu ddwy'r wythnos) i 30% o feddygfeydd yn 2013/14 a 50% yn 2015/16 yw £1.8m a £3.1m y naill a'r llall. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i asesu a yw darparu oriau estynedig y gwasanaeth ychwanegol presennol yn diwallu anghenion cleifion ac yn sicrhau gwerth am arian. Defnyddir canfyddiadau'r adolygiad hwn i gyfrannu at y dull gweithredu i ymestyn oriau agor ar ôl 6.30pm yn ystod yr wythnos. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Fyrddau Iechyd, gan weithio gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yng Nghymru, a daw'r adolygiad i ben erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012.

Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gadarnhau a chyllido costau'r rhaglenni hyn wrth iddynt barhau i ddatblygu a chael eu gweithredu.

4. Cynllunio a gwariant cyfalaf

Mae'r cyllid cyfalaf yng Ngweithred Cyflenwi'r GIG yn cefnogi cyflenwi Rhaglen Cyfalaf Cymru Gyfan.

Ac eithrio'r £12 miliwn o gyfalaf ychwanegol sydd wedi cael ei briodoli i'r Weithred hon yn 2013-14 fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer cynlluniau penodol, bydd oddeutu £44 miliwn yn cael ei roi i gyrrff

y GIG fel dyraniadau yn ôl disgrisiwn. Mae modd defnyddio'r rhain i wella ac i ddiweddarau'r ystad bresennol, gan gynnwys targedu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw, prynu mân offer a mân waith.

Mae gweddill y cyllid ar gael ar gyfer cynlluniau unigol. Rhaid cael cyfiawnhad dros bob penderfyniad buddsoddi wrth ddyrannu cyfalaf a chaiff hynny ei wneud drwy werthuso'r dewisiadau a nodir mewn achos busnes mewn ffordd systematig. Mae dull gweithredu Model 5 Achos Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn safonol ar gyfer cyfiawnhau pob buddsoddiad cyfalaf mawr mewn gofal iechyd yng Nghymru.

A throi at ystyried cynlluniau gwasanaeth y GIG, fel y gwyddoch, yn ddiweddar roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymgynghori ynghylch eu cynigion ar gyfer gwasanaethau i'r dyfodol. Maent yn awr yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau cyn cyflwyno'u cynigion terfynol. Roedd pedwar Bwrdd Iechyd De Cymru wedi dechrau'r rhaglen ymgysylltu tri mis o hyd ar 26 Medi a bydd hyn yn cael ei ddilyn gan broses ymgynghori ffurfiol yn y flwyddyn newydd. Felly nid oes dim cynigion cyfalaf pendant na therfynol ar hyn o bryd. Rwyf yn cytuno bod angen gwerthuso gofynion cyfalaf Bwrdd Iechyd Lleol yn amserol ac yn rheolaidd a gallaf gadarnhau bod fy swyddogion yn cynnal trafodaethau rheolaidd â sefydliadau'r GIG i ganfod a rheoli cyfleoedd buddsoddi wrth iddynt ddod i'r fei i sicrhau ein bod yn parhau i ganfod, cyllido a chyflenwi'r cynlluniau blaenoriaeth.

5. Arian wrth gefn

Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi ein bod yn rheoli cyllideb dros £6 biliwn, sy'n cael ei defnyddio i gyllido ystod eang o raglenni, gan gynnwys, wrth gwrs, cyllid craidd GIG Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae'n arferol y bydd cynlluniau gwariant manwl yn newid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, yn enwedig pan fydd eisiau ystyriaeth neu asesiad pellach cyn ymrwymo cyllid ar raglen newydd, neu ymestyn rhaglen sydd eisoes ar waith. Drwy reoli'r gyllideb sylweddol hon yn barhaus ac yn ofalus y gall swyddogion ddod o hyd i gyfleoedd i ailgyfeirio arian yn ystod y flwyddyn i ddiwallu ymrwymadau a phwysau newydd wrth iddynt godi. Efallai nad oedd modd rhagweld y rhain wrth osod y Gyllideb. Ar ben hynny, mae'n hollol briodol dal elfen o'r gyllideb yn ôl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i ddiwallu risgiau ariannol a all godi wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Drwy'r prosesau hyn caiff "cronfa" wrth gefn ei chynhyrchu i liniaru yn erbyn risgiau ariannol a thalu am bwysau yn ystod y flwyddyn. Mae cynigion ein cyllideb ddrafft yn cynnwys £30 miliwn o arian wrth gefn ar gyfer 2013-14, sydd yn y Weithred cyllideb Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu.

Mewn blynyddoedd blaenorol, daeth dyraniadau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol o gyfuniad o arian wrth gefn Llywodraeth Ganolog pan nad oedd digon o "gronfa" wrth gefn yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i dalu am y diffygion disgwylidiedig yng nghyllidebau'r GIG.

6. Neilltuo

Fel rhan o'u ffurflenni monitro ariannol misol i Lywodraeth Cymru, gofynnir i Fyrddau Iechyd Lleol gadarnhau eu bod yn defnyddio eu holl gyllid sydd wedi'i neilltuo at y dibenion y cafodd yr arian hwnnw ei ddyrannu. Byddai swyddogion yn mynd ar drywydd unrhyw ddiffyg mewn gwariant a fyddai'n cael ei ragweld yn y dyraniad wedi'i neilltuo gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Rydym wedi egluro i'r Pwyllgor o blaen y materion penodol sy'n ymwneud â monitro cydymffurfiad â'r dyraniad wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, rydym yn gallu cadarnhau bod cyfanswm y gwariant perthnasol yn 2010-11 ar wasanaethau iechyd meddwl yn £607 miliwn o'i gymharu â'r swm a neilltuwyd sef £572 miliwn ar gyfer y flwyddyn honno – gwariant ychwanegol o £35 miliwn dros y swm a oedd wedi'i neilltuo. Bydd gwybodaeth 2011-12 ar gael yn gynnar yn 2013.

Gan edrych ymlaen, rydym wedi ymrwymo yn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* y byddwn yn adolygu sail y trefniadau neilltuo, a bydd gwaith yn mynd rhagddo maes o law. Ar ben hynny, mae nifer o

ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu i wella ein dealltwriaeth o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflenwi am y buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda grwpiau defnyddwyr i ddatblygu ffordd o fesur sut mae lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn gwella. Bydd y dull gweithredu arloesol newydd hwn yn mesur canlyniadau o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. Rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu trefn cyllid a chydymffurfiad newydd ar gyfer GIG Cymru, lle rhoddir mwy o bwys ar bob bwrdd iechyd lleol yn meincnodi ei lefel o fuddsoddiad ar bob cyflwr iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, gyda chymheiriaid priodol, gan ystyried anghenion perthnasol eu poblogaeth o'u cymharu â'u cymheiriaid. Yn olaf, rydym wedi dechrau gweithio i ddatblygu set ddata genedlaethol ar gyfer cofnodi gwybodaeth graidd am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl.

7. Cydweithrediad Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllidebau Cyfun

Rydym yn cydnabod bod angen ysgogi cynnydd gwasanaethau integredig drwy ddarparu cyllid priodol i gefnogi cynlluniau newydd ac ymchwil perthnasol. Eleni, rydym yn buddsoddi £500,000 ychwanegol gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau arweinyddiaeth mewn integreiddio a chydweithredu.

Dros y ddwy flynedd nesaf a gyda nawdd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, rydym yn buddsoddi bron i £140,000 i gyllido Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth unigryw a fydd yn cefnogi datblygu mwy o gydweithredu effeithiol. Un o brif nodau'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yw datblygu'r dull i asesu ansawdd gwasanaethau integredig ar gyfer pobl hŷn sy'n defnyddio offer ymarferol i fesur cost ac effaith amrywiol fodolau gwasanaeth ar y cyd a chynhyrchu achos busnes wedi'i gostio ar gyfer gweithredu arferion mae modd eu trosglwyddo'n genedlaethol.

Un rhaglen waith a gaiff fudd o'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yw'r fframwaith ar gyfer integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ledled Cymru, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2012/13. Bydd y Fframwaith yn rhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau integredig ac rydym yn disgwyl y bydd angen i Lywodraeth Leol a Byrddau Iechyd ystyried a ffurfioli cyllidebau ar y cyd wrth gyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Bydd Bwrdd Gwasanaethau Integredig Cenedlaethol yn goruchwyllo gweithredu'r Fframwaith gan atgyfnerthu cyfleoedd a gwerth integreiddio ar lefel gorfforaethol.

Budd arall yw'r cyhoeddiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ei fod fel rhan o setliad y flwyddyn nesaf yn creu cronfa ar wahân o £10 miliwn i gefnogi Awdurdodau Lleol i gyflenwi prosiectau cydweithredu rhanbarthol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wasanaethau cymdeithasol yn eu gwaith gyda gwasanaethau iechyd.

Ar hyn o bryd mae gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ac adran Gwasanaethau Cymdeithasol ofyniad cyllidebol i gyflenwi gwasanaethau ar y cyd pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol. Mae'r pwerau o dan Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn darparu ar gyfer y gofyniad i sefydlu partneriaethau ar draws adrannau i integreiddio gwasanaethau ac mae wedi'i hwyluso drwy ystod eang o bolisiau a grantiau gan gynnwys y Grant ar gyfer Cydweithio. Roedd y Grant ar gyfer Cydweithio yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni rhagor o gydweithio rhwng y GIG a Llywodraeth Leol ac roedd wedi'i anelu at wella'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rhwng dechrau'r cynllun yn 2001 a'i ddiwedd ym mis Mawrth 2011, roedd £90 miliwn ar gael i Awdurdodau Lleol ac roedd yr arian sefydlu hwn wedi arwain at rai llwyddiannau amlwg, er enghraifft, sefydlu gwasanaethau ail-alluogi cymunedol, a ragflaenodd timau adnoddau cymunedol sydd nawr yn cael eu datblygu ledled Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi'r sylfaen ddeddfwriaethol i atgyfnerthu'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu er buddiannau cost effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae darpariaethau'r Bil yn cynnwys pwerau cryfach sydd wedi'u hanelu at hybu cyllidebau cyfun, partneriaethau ffurfiol a hyblygrwydd arall ac mae modd defnyddio'r rheoliadau a'r cyfarwyddyd i orfodi prosesau o'r fath os bydd angen.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ.



Lesley Griffiths AC
Minister for Health and Social Services
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol



Gwenda Thomas AC
Deputy Minister for Children and Social Services
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Eitem 4

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Ystyried penodi cynghorydd arbenigol

HSC(4)-33-12 – papur 4: 5 Rhagfyr 2012

Cynghorwyr arbenigol

Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi cyngor ar y posibilrwydd o benodi cynghorydd arbenigol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 1.

Cefndir

2. Y sail dros benodi cynghorwyr yw'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 17.55, yw y 'Caiff pwyllgorau benodi cynghorwyr yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn er mwyn iddynt roi cyngor arbenigol'.

3. Rydym yn disgwyl y bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ar 28 Ionawr 2013. Gan y gallai'r Pwyllgor fod yn craffu ar dri Bil yn ystod tymor y gwanwyn, gallai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor drafod, yn gynnar yn y broses, a yw'n dymuno penodi cynghorydd arbenigol fel bod modd paratoi rhestr fer o ymgeiswyr addas a'i chyflwyno i'r Pwyllgor.

Trafodaeth

Rôl cynghorydd

4. Diben cyngor arbenigol yw:

- ategu arbenigedd mewnol Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ychwanegu gwerth at ystyriaeth y Pwyllgor o unrhyw bwnc penodol.

5. Gwneir hyn drwy ddarparu ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth, cyngor a gallu dadansoddol i bwyllgor gan barti allanol sydd â gwybodaeth arbenigol benodol a phroffedig am y pwnc y mae'r pwyllgor yn ei ystyried.

6. Fel y gŵyr Aelodau o ganlyniad i'r brîff ffeithiol a gafwyd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol drafft ym mis Mai 2012, mae hwn yn Fil manwl iawn. Gallai fod yn ddefnyddiol i Aelodau gael papurau briffio ychwanegol ar bob un o'r prif feysydd yn y Bil ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn. Byddai'r papurau briffio hyn, wrth gwrs, yn ategu'r papurau a geir yn rheolaidd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

7. Gallai'r cylch gorchwyl a awgrymir ar gyfer y cynghorydd gynnwys rhoi cyngor arbenigol i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 1. Gallai'r gwaith hwn gynnwys darparu'r canlynol i Glerc y Pwyllgor yn unol â dyddiadau cau y cytunwyd arnynt:

- dogfennau briffio ysgrifenedig;
- crynodeb o bob adran yn y Bil;
- awgrymiadau ar gyfer mathau o gwestiynau y gellid eu gofyn yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad;
- awgrymiadau ar gyfer cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig a llafar tystion;
- prif faterion sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd;
- sylwadau ar ddrafft cyntaf adroddiad y pwyllgor.

8. Mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn gweithio yn unol â therfynau amser tynn iawn ac, o ganlyniad, efallai y bydd yn rhaid i'r cynghorydd

ysgrifennu dogfennau briffio ar fyr rybudd. Gallai fod disgwyl i'r cynghorydd fynychu rhai neu bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Camau nesaf

9. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno i benodi cynghorydd, bydd y tîm Clercio yn paratoi papur â rhestr o gynghorwyr posibl er mwyn i'r Aelodau ei ystyried yn un o gyfarfodydd cyntaf tymor y gwanwyn.

Argymhelliad

10. Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno:

- ynghylch a ydynt am benodi cynghorydd arbenigol ar gyfer ei waith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 1;
- i nodi y bydd papur arall, sy'n cynnwys rhestr o dystion posibl, yn cael ei baratoi er mwyn ei ystyried yn un o'r cyfarfodydd cyntaf ym mis Ionawr 2013.

**Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Tachwedd 2012**

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) – Ystyriaeth Cyfnod 1

At: Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Gan: Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Dyddiad y cyfarfod: 5 Rhagfyr 2012

Diben

1. Amlinellu rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1.
2. Gwahodd y Pwyllgor i drafod a chytuno ar ei gylch gorchwyl a'i ddull o graffu ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ('y Bil) yng Nghyfnod 1.

Cefndir

3. Ar 20 Tachwedd 2012, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('y Pwyllgor), gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad arno erbyn 22 Mawrth 2013.
4. Ar 3 Rhagfyr 2012, cafodd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol eu cyflwyno gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaeth ddatganiad hefyd yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2012.
5. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi papur yn rhoi cefndir y Bil ac mae'r ddogfen hon ar gael ar wahân.

Rôl y Pwyllgor

6. Rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1 yw 'ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt' (Rheol Sefydlog 26.10)
7. Nid oes gofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog sy'n rheoli'r modd y bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â'r gwaith craffu hwn. Felly, mae cylch gorchwyl drafft ym mharagraff 9 yn y papur hwn ac, ym mharagraffau 10–15, awgrymir sut y gellid ymgymryd â'r gwaith craffu.

8. Ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad, bydd dadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn. Ar ddiwedd y ddadl hon, gofynnir i'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Os caiff yr egwyddorion cyffredinol eu derbyn, bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, pan fydd y Pwyllgor yn trafod ac yn gwaredu gwelliannau'r Pwyllgor (ar hyn o bryd, bwriedir cynnal Cyfnod 2 ym mis Mai/Mehefin 2013).

Y cylch gorchwyl drafft

9. Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, awgrymir bod y Pwyllgor yn cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

Ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen i ddeddfu i gynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu drwy gyflwyno system feddal o optio allan o'r drefn o roi organau a meinweoedd yng Nghymru, drwy gyfeirio at:

1. Y darpariaethau unigol yn y Bil—
 - Adran 2, yn ymwneud â hyrwyddo trawsblannu,
 - Adran 3, yn ymwneud â gweithgareddau trawsblannu cyfreithlon,
 - Adrannau 4–8, yn ymwneud â rhoi caniatâd
 - Adrannau 9–11, yn ymwneud â throeddau,
 - Adrannau 29–37, sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol.
2. Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried.
3. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion sydd ynghlwm wrth roi'r Bil ar waith.
4. Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1, paragraff 91 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl yn crynhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth).

Dull y Pwyllgor o graffu yng Nghyfnod 1

10. Yn unol â'r terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, bydd angen i'r Pwyllgor orffen craffu ar y Bil a pharatoi adroddiad arno erbyn 22 Mawrth 2013 fan bellaf.

11. Mae'r terfyn amser yn golygu bod yn rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn ymhen 10 wythnos fusnes, er y bydd yn rhaid ei gyflawni'r un pryd â gwaith polisi a deddfwriaeth arall y Pwyllgor.

12. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno eisoes ar y dull cyffredinol a ganlyn o graffu ar ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 1:—

- **Cais cyffredinol am dystiolaeth**
Cyhoeddi cais cyffredinol am dystiolaeth, rhoi gwybod i'r wasg yng Nghymru amdani a'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.
- **Cais am dystiolaeth ysgrifenedig**
Gwahodd sefydliadau ac unigolion penodol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Mae rhestr o ymgynghoreion posibl ynghlwm yn Atodiad 1.
- **Tystiolaeth lafar**
Gwahodd y prif randdeiliaid i roi tystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd yn y dyfodol (a chynnal yr ymgynghoriad yr un pryd). Mae rhestr o dystion posibl o'r sectorau perthnasol ynghlwm yn Atodiad 2.

13. Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yn caniatáu cyfnod ymgynghori o chwe wythnos, rhwng 7 Rhagfyr 2012 ac 18 Ionawr 2013.

14. Bydd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gesglir yn helpu i lywio trafodaethau'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil ac wrth iddo baratoi ei adroddiad.

15. Er gwybodaeth, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adrodd ar yr agweddau perthnasol ar y Bil.

Cam i'w gymryd

16. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar:

- y cylch gorchwyl drafft (a amlinellir ym mharagraff 9);
- ei ddull o graffu yng Nghyfnod 1 (a amlinellir ym mharagraffau 10 - 15);
- ymgynghoriad chwe wythnos a'r rhestr o ymgynghoreion (Atodiad 1);
- y rhestr o dystion posibl (Atodiad 2).

Atodiad 1

Unigolion/sefydliadau posibl y gellid cysylltu â nhw i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig:

Byrddau Iechyd Lleol/Ymddiriedolaethau'r GIG
Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Arweinwyr Clinigol ym maes Rhoi Organau
Nyrsys Arbenigol ym maes Rhoi Organau
Bwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
Tîmau Tynnu Organau
Rhwydwaith Arennau Cymru Gyfan
Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned
Rhwydweithiau Gofal Critigol
Rhwydweithiau'r Galon
Grŵp Cynghori ar Organau a Thrawsblaniadau Cymru Gyfan
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain
Y Coleg Meddygaeth Frys
Cydffederasiwn GIG Cymru
Coleg Brenhinol yr Anaesthetyddion
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol y Patholegwyr
Coleg Brenhinol y Bydwagedd
Coleg Brenhinol yr Ophthalmolegwyr
Coleg Brenhinol y Radiolegwyr
Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru
Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys
Cymdeithas Feddygol Prydain
Crwneriaid Cymru
Pwyllgorau Cynghorol Statudol Iechyd
Cymdeithas Gofal Dwys Pediatrig
Cymdeithas Gofal Dwys Cymru

Sefydliad Aren Cymru
Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru
Trawsblannu 2013
Diabetes UK
Sefydliad Prydeinig y Galon
Epilepsy Action Cymru
Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Plant yng Nghymru
Cynghrair Niwrolegol Cymru
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
DeafBlindUK
Action on hearing loss (RNID gynt)
Anabledd Dysgu Cymru
MIND Manager for Influence and Change
Shelter Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig
British Liver Trust
Live Life then Give Life
Anabledd Cymru
British Organ Donor Society
Kidney Research UK
Y Gymdeithas Haemoffilia
Cymdeithas y Cleifion
Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain
Donor Family Network

Cytûn
Archesgob Cymru
Yr Eglwys Gatholig
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Ffydd Baha'I
Cyngor Bwdhaidd Cymru
Buddhistcouncilofwales.org.uk
Y Deml Shree Swaminarayaid
Y Deml Hindwâidd, yr Eglwys Newydd

Iddewiaeth Ddiwygiedig
Cyngor Mwslimiaid Cymru
Access for Black Children with Disabilities
Y Ganolfan Gymuned Affricanaidd
Prosiect Neville Street Barnados
Black Association of Women Step Out
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon
Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd
Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Caerdydd
Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig
Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru
Race Equality First
Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru
Cymdeithas Integreiddio Somaliaid
Somali Progressive Association
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe
Taha Idris
Tai Pawb
Sefydliad Henna
Diverse Cymru
Cyngor Cydraddoldeb y Cymoedd
Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Un Llais Cymru
CBI Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Heddluoedd Cymru
Undebau Llafur

Ymatebodd yr isod i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Yr Athro Ceri Phillips – Prifysgol Abertawe
Yr Athro John Saunders – Pwyllgor Rhoi Organau Ysbsyty Neville Hall a
Chadeirydd Pwyllgor Materion Moesegol mewn Meddygaeth Coleg
Brenhinol y Ffisigwyr
Dr Abdalla Yassin Mohamed – Cyfarwyddwr Cymdeithas Gwasanaethau
Cymdeithasol Islamaidd Caerdydd
Society for the Protection of Unborn Children
Undeb Bedyddwyr Cymru
Eglwys Fethodistaidd Cymru
Orthodox Wales
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru
Cyngor Cymuned Llantrisant Fawr
Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl
Cyngor Cymuned Sealand
Cyngor Tref Llanelli
Cenhadaeth Uniongred Cymru
Synod Cymru Eglwys Fethodistaidd Cymru
Cyngor Cymuned Llangathen
Cyfadran Meddyginiaeth Gofal Dwys Llundain
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Eglwys y Bedyddwyr Mynwy
Cyngor Cymuned Llangunnor
Prosiect Nos Wener Cartrefi Cymru
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cyfadran Iechyd, Chwaraeon a Gwyddoniaeth Prifysgol Morgannwg
Soroptimist International Port Talbot
Cyngor Tref Penfro
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
Y Comisiynydd Gwybodaeth
Iechyd, Moeseg a'r Gyfraith, Prifysgol Southampton
Christian Medical Fellowship
UK Donation Ethics Committee

Canolfan Gymuned SKLP
Canolfan India
Eglwys y Bedyddwyr Albany Road
Cyngor Tref Llanandras a Norton

Atodiad 2

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Tystion posibl

Dyddiad y papur:

3 Rhagfyr 2012

Cynhyrchwyd y papur hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Victoria Paris yn y Gwasanaeth Ymchwil

Est. 8678

E-bost: victoria.paris@wales.gov.uk

The logo for the Research Service, featuring a red triangle pointing downwards on a grey background. The text "Research Service" is written in white within the red triangle.

Research
Service

Tystion posibl

Diben y papur hwn yw awgrym tystion a allai gynnig tystiolaeth lafar ar gyfer Cam 1 o'r gwaith o graffu ar y *Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*.

Darparwyr Gofal Iechyd

- Cydffederasiwn GIG Cymru – mae'n cynrychioli holl gyrff y GIG yng Nghymru. Yn benodol, Arweinwyr Clinigol ar Roi Organau (CLOD) a Nyrsys Arbenigol ar Roi Organau) (SNODs).
- Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru – ei rôl yw hyrwyddo, hwyluso a, lle y bo'n briodol, cydgysylltu gwaith y Colegau Meddygol Brenhinol a'u cyfadrannau er budd cleifion a gofal iechyd. Mae'r Academi yn cynnwys llywyddion y Colegau Meddygol Brenhinol a'r Cyfadrannau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i gytuno ar gyfeiriad eu gwaith.

Trawsblannu organau

- Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG: Cyfarwyddiaeth Rhoi Organau a Thrawsblaniadau (ODT) – ei rôl allweddol yw sicrhau bod organau sy'n cael eu rhoi i'w trawsblannu yn cael eu dyrannu i gleifion mewn modd teg a diragfarn. Nid oes gan y Gyfarwyddiaeth berthynas uniongyrchol â chleifion ac nid yw'n darparu gofal ymarferol. Mae'n rheoli Cofrestr Trawsblannu'r DU ac yn cadw Cofrestr Rhoi Organau Genedlaethol y GIG.
- Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol – corff gwarchod sy'n ennyn hyder y cyhoedd drwy roi trwyddedau i gyrff sy'n cadw ac yn defnyddio meinweoedd dynol at ddibenion gwaith ymchwil, trin cleifion, archwiliadau post-mortem, dysgu ac arddangosfeydd cyhoeddus. Mae'n gofalu bod meinweoedd dynol yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn foesegol, a chyda'r caniatâd priodol.

- Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain – llais proffesiynol o blaid trawsblannu yn y DU, sy'n cynrychioli'r holl wahanol ddisgyblaethau ym maes trawsblannu gan gynnwys clinigwyr, nyrsys, fferyllwyr, gwyddonwyr sy'n ymwneud â gwaith ymchwil sylfaenol neu ac sy'n gweithio mewn labordai histogydnawsedd, moesegwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig â meddygaeth.

Moeseg a hawliau dynol

- Pwyllgor Moeseg Rhoi Organau'r DU (UKDEC) – ffynhonnell gwybodaeth ac arweiniad annibynnol ynghylch agweddau moesegol ar roi a thrawsblannu organau. Ei nod yw ennyn hyder proffesiynol a chyhoeddus yn sylfaen moesegol y penderfyniadau a'r prosesau'n ymwneud â rhoi organau. Mae UKDEC yn rhan o Academi'r Colegau Brenhinol.
- Cyngor Biofoeseg Nuffield – Corff annibynnol sy'n archwilio ac yn adrodd ar faterion moesegol ym maes bioleg a meddygaeth.

Ffydd a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

- Cyngor Mwslimiaid Cymru – corff ymbarél annibynnol a chynhwysol sy'n cynrychioli buddiannau Mwslimiaid Cymru.
- Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru – elusen Iddewig sy'n dwyn prif gyrff Iddewig Prydain ynghyd i weithio er bydd y gymuned Iddewig ym Mhrydain.
- Rhwydwaith Rhyng-ffydd Cymru – corff ymbarél sy'n dwyn llawer o gymunedau ffydd a chymunedau ysbrydol Cymru ynghyd.
- Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon yng Nghymru – corff ymbarél, sy'n cynrychioli, yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo buddiannau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r Sector Gwirfoddol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Y sector gwirfoddol

- **Patient Concern** – maent yn casglu sylwadau gan gleifion ac yn eu defnyddio i ymgyrchu dros wella'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU.
- **Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru** – llais sy'n cynrychioli'r holl gyrff gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl.

Academyddion

Yr Athro Ceri Phillips – Athro Economeg Iechyd a Dirprwy Bennaeth Ysgol (Ymchwil) Prifysgol Abertawe. Mae gwahanol gyrff wedi'i gomisiynu i weithio iddynt, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, Llywodraeth Cymru, yr Adran Iechyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwahanol awdurdodau iechyd a chwmnïau fferyllol. Yn 2009, fe'i penodwyd i Gomisiwn Bevan gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, i oruchwylio strwythur newydd GIG Cymru. Mae'n aelod o Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ac ef yw Is-gadeirydd y Grŵp Meddyginiaethau sy'n gwneud argymhellion i'r Grŵp Strategaeth. Mae wedi cyfrannau at y gwaith o greu a datblygu Strategaeth Iechyd Galwedigaethau Cymru. Yn ogystal â hyn, mae wedi bod yn aelod o Grwpiau Datblygu Rhaglenni NICE a fu'n trafod amrywiol bynciau ym maes iechyd cyhoeddus. Ar raglen *Week In Week Out* ar y BBC, dywedodd yr Athro Phillips y gallai'r system optio allan arwain at fuddion ariannol hirdymor, fel arbed arian ar driniaeth dialysis i gleifion sy'n aros am aren newydd, ond y gallai hefyd greu problemau ychwanegol i ysbytai a oedd eisoes dan bwysau o ran gwelyau gofal critigol ac amser theatr.

Yr Athro John Saunders – Ymgynghorydd sy'n bennaeth ar bwllgor rhoi organau yn Ysbyty Nevill Hall, y Fenni, ac sy'n cadeirio Pwyllgor Moeseg Coleg Brenhinol y Ffisigwyr. Ar raglen *Week In Week Out* y BBC, tanlinellodd yr Athro hefyd ei bryder ynghylch y pwysau ychwanegol ar unedau gofal dwys ac y byddai angen buddsoddi rhagor yn y cyfleusterau hynny. Roedd yn pryderu

hefyd y gallai cael cofrestr 'r rhai sy'n dewis rhoi eu horganau a system optio allan ddrysu cleifion, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr organau a fydd ar gael i'w trawsblannu.

Yr Athro John Fabre – Mae John Fabre yn gweithio yn yr Adran Hepatoleg a Thrawsblaniadau yn Ysgol Feddygol Coleg y Brenin Llundain. Mae'n gyn-gadeirydd Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain. Y mae wedi dweud na ellir priodoli'r nifer uchel o Sbaenwyr sy'n dewis rhoi organau i'r ddeddfwriaeth optio allan newydd a gyflwynwyd yn Sbaen ac wedi dadlau nad oes tystiolaeth y bydd newid y gyfraith yn arwain at gynnydd yn nifer yr organau a fydd ar gael i'w trawsblannu.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-33-12 papur 6

Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) – Ystyriaeth Cyfnod 1

At: Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gan: Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Dyddiad y cyfarfod: 5 Rhagfyr 2012

Diben

1. Gwahodd y Pwyllgor i drafod a chytuno ar ei ddull gweithredu a'r fframwaith ar gyfer craffu yng Nghyfnod 1 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) ('y Bil').

Cefndir

2. Ar 13 Tachwedd 2012, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('y Pwyllgor'), gan nodi bod angen cyflwyno adroddiad arno erbyn 8 Mawrth 2013.

3. Ar 3 Rhagfyr 2012, cafodd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol eu cyflwyno gan Mick Antoniw AC, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil.

4. Mae papur sy'n amlinellu diben a darpariaethau'r Bil wedi'i ddarparu ar wahân.

Rôl y Pwyllgor

5. Rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1 yw *ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt* (Rheol Sefydlog 26.10). Nid oes gofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog sy'n rheoli'r modd y bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â'r gwaith craffu hwn. Nodir isod ddull gweithredu awgrymedig, ynghyd â fframwaith awgrymedig i lywio gwaith y Pwyllgor.

6. Ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad, bydd dadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn i benderfynu a yw'r Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Os caiff yr egwyddorion cyffredinol eu derbyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried y Bil yn fanwl yng Nghyfnod 2; bydd hyn yn cynnwys gwaredu gwelliannau (ar hyn o bryd, bwriedir cynnal Cyfnod 2 rhwng 21 Mawrth a 10 Mai 2013).

Fframwaith awgrymedig

7. Wrth ystyried ei ddull o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, awgrymir y dylai'r Pwyllgor weithio o fewn y fframwaith eang a ganlyn:

I'w hystyried:

- i. yr angen am Fil a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru, ar ran y GIG yng Nghymru, i adennill costau triniaeth a gofal meddygol a ddarperir i gleifion yng Nghymru sydd wedi datblygu clefyd sy'n ymwneud ag Asbestos (Mesothelioma, placiau plewrol, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint a chlefydau cysylltiedig eraill) ac wedi cael setliad neu ddyfarniad sifil mewn llys neu y tu allan i lys gan gyflogwr neu gorff arall.
- ii. a yw'r Bil yn cyflawni'r dibenion a bennwyd iddo;
- iii. prif ddarpariaethau'r Bil, ac a ydynt yn briodol i gyflawni ei ddibenion;
- iv. goblygiadau ariannol y Bil;
- v. unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- vi a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vii. barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio yn ôl y trefniadau newydd;
- viii. a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau ar wyneb y Bil a'r pwerau a roddir drwy Reoliadau.

Dull y Pwyllgor o graffu yng Nghyfnod 1

8. Yn unol â'r terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, bydd angen i'r Pwyllgor gwblhau ei waith o graffu ar y Bil a gosod ei adroddiad ar 8 Mawrth 2013 fan bellaf.

9. Mae'r terfyn amser hwn yn golygu bod yn rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn 10 wythnos fusnes, er ei bod yn debygol y bydd yn rhaid ei gyflawni ar yr un pryd â'r gwaith o graffu ar ddau Fil arall, yn ogystal â gwaith polisi y cytunodd y Pwyllgor arno. Mae amser wedi'i neilltuo yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 10, 16 a 24 Ionawr 2013 i holi tystion, ac ar 7 a 20 Chwefror i drafod y prif faterion ac adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Bil.

10. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno eisoes ar y dull gweithredu cyffredinol a ganlyn i graffu ar ddeddfwriaeth yng Nghyfnod 1.

- **Cais cyffredinol am dystiolaeth**

Cyhoeddi cais cyffredinol am dystiolaeth, rhoi gwybod i'r wasg yng Nghymru amdani a'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Mae'r llythyr ymgynghori drafft a rhestr ddrafft o gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u hatodi yn Atodiad 1.

- **Cais am dystiolaeth ysgrifenedig**

Gwahodd sefydliadau ac unigolion a ddewiswyd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Mae rhestr o ymgynghoreion posibl wedi'i hatodi yn Atodiad 2.

- **Tystiolaeth lafar**

Gwahodd y prif randdeiliaid i roi tystiolaeth lafar mewn cyfarfodydd yn y dyfodol (gan gynnal yr ymgynghoriad ar yr un pryd). Mae rhestr dros dro o dystion o'r sectorau perthnasol wedi'i hatodi yn Atodiad 3. Hefyd, awgrymir y dylid gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig benodol gan ddau sefydliad, er nad ystyrir ei bod yn angenrheidiol eu galw i fod yn dystion. (Gweler Atodiad 4)

- **Allgymorth**

O gofio natur y Bil a'r ffaith ei fod yn effeithio yn bennaf ar gyrrff canolog y Llywodraeth a buddiannau preifat penodol, ar yr achlysur hwn nid argymhellir defnyddio Tîm Allgymorth y Cynulliad i ymgysylltu â chroestoriad o'r cyhoedd i ganfod ei farn am y Bil.

11. Mae'r terfyn amser o ran cyflwyno adroddiad yn ei gwneud yn bosibl cael cyfnod ychydig yn hwy na chwe wythnos i gynnal ymgynghoriad, sef rhwng 29 Tachwedd 2012 a 10 Ionawr 2013. Dylai hyn ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried a ddylid gwahodd unrhyw dystion ychwanegol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yng ngoleuni'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd, er y byddai amser yn brin iawn.

12. Bydd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gasglwyd yn helpu i lywio gwaith y Pwyllgor o drafod y Bil a'i adroddiad dilynol.

13. Er gwybodaeth, mae'r Rheolau Sefydlog yn galluogi'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i adrodd ar agweddau perthnasol y Bil.

Y rhaglen waith

14. Mae amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1 wedi'i hatodi yn Atodiad 5.

Cam i'w gymryd

15. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- gytuno ar y fframwaith cyffredinol a fydd yn llywio ei waith (a amlinellir ym mharagraff 7);
- cytuno ar ei ddull o graffu yng Nghyfnod 1 (fel y'i hamlinellir ym mharagraffau 8 i 13);
- cytuno ar ymgynghoriad chwe wythnos, cwestiynau'r ymgynghoriad a'r rhestr o ymgynghoreion (Atodiad 1 ac Atodiad 2);
- cytuno ar y rhestr dros dro o dystion i'w gwahodd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig (Atodiadau 3 a 4);
- nodi'r amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o drafod y Bil yng Nghyfnod 1 (Atodiad 5).



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2012

Annwyl Syr/Madam,

Ymgynghoriad ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

Fel rhan o'i waith o drafod y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yng Nghyfnod 1, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galw am dystiolaeth ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil. I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

Beth yw Bil?

Cyfraith ddrafft yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad'.

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid), a chael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

“Nod y Bil yw galluogi Gweinidogion Cymru i adennill oddi wrth ddiogledwr (sef person sy'n gwneud taliadau digolledu neu sy'n eu gwneud ar ei ran, i neu ar gyfer dioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos), gostau penodol sy'n dod i ran y GIG yng Nghymru wrth ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer dioddefwr y clefyd sy'n ymwneud ag asbestos.”

Beth yw rôl y Pwyllgor?

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I'w hystyried:

- i) yr angen am Fil i alluogi Llywodraeth Cymru, ar ran y GIG yng Nghymru, i adennill costau triniaeth a gofal meddygol a ddarperir i gleifion yng Nghymru sydd wedi datblygu clefyd sy'n ymwneud ag Asbestos (Mesothelioma, placiau plewrol, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint a chlefydau cysylltiedig eraill) ac wedi cael setliad neu ddyfarniad sifil mewn llys neu y tu allan i lys gan gyflogwr neu gorff arall;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni'r dibenion a bennwyd iddo;
- iii) prif ddarpariaethau'r Bil, ac a ydynt yn briodol i gyflawni ei ddibenion;
- iv) goblygiadau ariannol y Bil;
- v) unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- vi) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vii) barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio yn ôl y trefniadau newydd;
- viii) a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau ar wyneb y Bil a'r pwerau a roddir drwy Reoliadau.

Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at PwyllgorIGC@cymru.gov.uk a rhowch y teitl a ganlyn ar yr e-bost "Ymgynghoriad - y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)."

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Olga Lewis, Dirprwy Glerc
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai'r dystiolaeth gyrraedd erbyn 10 Ionawr 2013. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y materion sydd gerbron y Pwyllgor. Gofynnwn ichi roi'r teitl a nodir uchod ar eich tystiolaeth;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth;
- nodwch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad yr ydych; a
- nodwch a fydddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd ymatebion gan y rhai a enwyd ar y rhestr atodedig (gweler Atodiad 3). Byddai'r Pwyllgor yn

ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor, drwy ffonio 029 2089 8242, neu Olga Lewis, y Dirprwy Clerc, drwy ffonio 029 2089 8154.

Yn gywir

Mark Drakeford AC
Cadeirydd

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cyffredinol

1. A oes angen Bil i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru? Esboniwch eich ateb.
2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.
3. A yw adrannau'r Bil yn briodol o ran cyflwyno cyfundrefn i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?
4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?
5. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

6. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl yn crynhoi'r pwerau a fydd yn cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil i wneud gorchmynion a rheoliadau ac yn y blaen.

Goblygiadau ariannol

7. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

Sylwadau eraill

8. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?

Rhestr o ymgygoreion posibl

Awdurdodau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Caerdydd

Cyngor Sir Gâr

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dinas a Sir Abertawe

Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Y Sector Gwirfoddol

Cynghrair Henoed Cymru

Age Cymru

ARC Cymru

Llywodraeth Well i Bobl Hŷn

Diverse Cymru

Contact the Elderly

Gofal Galar Cruse Cymru

Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru

Anabledd Cymru
Grwp Eirioli a Chefnogi Byw'n Annibynnol Gwynedd (ILASGG)
Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Cymdeithas y Cleifion
Fforwm Pensiynwyr Cymru
Rethink
Pensiynwyr Cymru
Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched (Cymru)

Grwpiau Cyngori
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Cancer Research UK
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cynghair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil
Coalition on Charging Cymru
Llais Defnyddwyr Cymru
Diverse Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
National Voices
Un Llais Cymru
OPAN Ymchwil Heneiddio Cymru
RNIB Cymru
Action on Hearing Loss Cymru
UNSAIN Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

Cyrff Cynrychioliadol
Asbestos Awareness and Support Cymru
Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos
Aslef
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol (Cymru)
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd

BMA Cymru
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint (Cymru)
Clwb Busnes Caerdydd
Clydeside Action on Asbestos
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
Cydffederasiwn Cynghorau Iechyd Cymuned
Undeb y Brigadau Tân (FBU)
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant
GMB
Sefydliad y Cyfarwyddwyr (Cymru)
Cymdeithas y Cyfreithwyr (Cymru)
Macmillan yng Nghymru
Marie Curie
Mesothelioma UK
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
(NASUWT) Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth
(RMT)
Tenovus
Undeb Adeiladu, Crefftiau Perthynol a Thechnegwyr (UCATT)
Unite Cymru
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
Confederasiwn GIG Cymru

Llywodraeth/Llywodraeth Leol
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Llywodraeth Well i Bobl Hŷn
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
Un Llais Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Iechyd/Iechyd y Cyhoedd

Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd

Cymdeithas Feddygol Prydain

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yng Nghymru

Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Comisiwn Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Pwyllgorau Meddygol Lleol

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymru (RCN Cymru)

Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

Coleg Brenhinol y Llawfeddygon

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr

Conffederasiwn GIG Cymru

Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a

Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Gwasanaethau Tân

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Awgrymiadau ynghylch unigolion/sefydliadau a allai roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

Yr Aelod sy'n Gyfrifol:

- Mick Antoniw AC

Y Diwydiant Yswiriant

- Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Cynrychiolwyr Cyflogaeth* a Dioddefwyr Asbestos

Tystiolaeth gan banel yn cynnwys:

- Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)
- GMB
- Asbestos Awareness and Support Cymru
- Fforwm y DU ar gyfer Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos

Cynrychiolwyr Byd Busnes

Tystiolaeth gan banel yn cynnwys:

- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain

Gweithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth

Tystiolaeth gan banel yn cynnwys:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
- Economegydd ym maes iechyd (yr Athro Ceri Phillips).

Gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith

Tystiolaeth gan banel yn cynnwys:

- Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol
- Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant
- Cymdeithas y Cyfreithwyr

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Lesley Griffiths AC

*Undebau llafur eraill y gellid eu gwahodd

UNSAIN Cymru

Unite Cymru

Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru

Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr (UCATT)

Sefydliadau y gellid gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig benodol i'r Pwyllgor:

Yr Uned Adfer Iawndal (Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU)

- O ran eu parodrwydd a'u gallu i ymgymryd â'r rôl a ragwelwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol yn ei Femorandwm Esboniadol.

Comisiwn y Gyfraith

- O ran dehongliad Cymdeithas Yswirwyr Prydain, fel y'i dyfynnir mewn gohebiaeth sy'n ymwneud â'r Bil, fod Comisiwn y Gyfraith wedi cynghori eisoes na ddylid ehangu cynllun adennill taliadau'r GIG i gynnwys hawliadau mewn perthynas â chlefydau.

Rhaglen waith ddrafft – dros dro

Dyddiad	
5 Rhagfyr 2012	11.10 – 12.10: Cyfnod 1 – trafodaeth ar y ffordd o weithio
Toriad y Nadolig	
10 Ionawr 2013	<u>Bore</u> 09.00 – 10.00 Tystiolaeth gan Mick Antoniw AC – Yr Aelod sy'n Gyfrifol 10.00 – 10.15 Trafodaeth ar dystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol (preifat) 10.15 – 11.00 Sesiwn Dystiolaeth 1 (Panel) 11.00 – 11.45 Sesiwn Dystiolaeth 2 (Panel)
16 Ionawr 2013	<u>Bore</u> 09.00 – 10.00 Sesiwn Dystiolaeth 3 (ABI) 10.00 – 10.45 Sesiwn Dystiolaeth 4 (Panel) 10.45 – 12.30 Sesiwn Dystiolaeth 5 (Panel)
24 Ionawr 2013	<u>Bore</u> Sesiwn dystiolaeth 6 (Gweinidog) Mick Antoniw AC – yr Aelod sy'n Gyfrifol (60 munud)
7 Chwefror 2013	Trafodaeth <u>breifat</u> (ar y papur ynghylch y prif faterion)
Toriad Mis Chwefror	
20 Chwefror 2013	Trafodaeth <u>breifat</u> ar yr adroddiad drafft

27 Chwefror 2013

Trafodaeth breifat ar yr adroddiad drafft (os na chytunwyd arno ar 20 Chwefror)